



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cynnal Aseidiadau O Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr

Canllawiau



Mai 2015

Cynnwys

Rhestrtermau	3
Pennod Un: Cyflwyniad	6
Pam asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr?	7
Pam mae angen asesiad ar wahân ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?	8
Â phwy mae angen ymgynghori drwy'r Asesiad Llety?	9
Beth ddylai ddeillio o'r asesiad llety?	11
Sut y bydd yn wahanol i asesu anghenion tai pobl heblaw Sipsiwn a Theithwyr?	11
Pennod Dau: Cynnal yr asesiad	13
Paratoi a gweithio mewn partneriaeth	14
Rheoli'r prosiect	14
Penodi Ymchwilwyr	16
Cynnwys rhanddeiliaid allweddol	18
Dadansoddi'r ffynonellau data presennol	19
Tabl 1 – Ffynonellau data eilaidd	19
Cynnal arolwg arbenigol	21
Pennu'r gymuned	21
Tabl 2 – Rhestr Wirio Ymgysylltu	23
Anawsterau wrth gynnwys y gymuned	23
Rheoli disgwyliadau	24
Sensitifrwydd diwylliannol	24
Amseru'r arolwg	25
Dulliau'r arolwg a dulliau ansoddol	25
Cwestiynau'r arolwg	26
Pennod Tri: Asesu Anghenion Llety	29
Y cyflenwad presennol o leiniau preswyl	29
Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl	30
Y galw presennol am ddarpariaeth breswyl	31
Deall 'Anghenion' a 'Dewisiadau'	32
Deall y Gwrthwynebiad Diwylliannol	33
Galw am lety mewn ardal leol arall	34
Galw am lety o safleoedd diawdurdod	35

Gorlenwi	35
Cyfrifo cyfanswm yr angen am leiniau preswyl	36
Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol	36
Tabl 3 – Amcangyfrif yr angen am leiniau preswyl ar safleoedd	37
Cyfrifo'r angen am safleoedd tramwy	39
Pennod Pedwar – Cyflwyno Adroddiadau i Weinidogion Cymru	41
Pennod Pump – Gwneud defnydd o'r aseiad	42
Pennod Chwech – Adolygu a Diweddarau	45
Atodiad 1 – Sefydliadau Perthnasol	46
Atodiad 2 – Holiadur	50
Atodiad 3 – Log Cyfweliad	60
Atodiad 4 – Tmpled drafft ar gyfer cyflwyno Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr	64

Rhestr Termau

Diffiniadau o dermau a chysyniadau allweddol yn y canllawiau hyn

<p>Sipsiwn a Theithwyr</p>	<p>(a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:</p> <p>(1) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion ieched neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion ieched neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol; a</p> <p>(2) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a</p> <p>(b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.</p> <p>Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014</p>
<p>Safle preswyl</p>	<p>Gall safle preswyl parhaol fod o dan berchenogaeth breifat neu pherchenogaeth Awdurdod Lleol. Bydd y safle hwn wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.</p> <p>Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.</p>
<p>Safle preswyl dros dro</p>	<p>Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl y rhoddyd caniatâd cynllunio neu drwydded safle ar eu cyfer am gyfnod penodol cyfyngedig. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau dros gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundeb llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa bynnag gyfnod sydd fyrraf).</p>
<p>Safle tramwy</p>	<p>Safleoedd tramwy yw cyfleusterau parhaol sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio dros dro gan feddianwyr. Rhaid dynodi'r safleoedd hyn a rhaid iddynt gynnig ffordd i Sipsiwn a Theithwyr barhau â ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswyllo ar y safle am 3 mis ar y tro ar y mwyaf.</p> <p>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r safleoedd hyn. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.</p>

Man Aros Dros Dro	<p>Rhai o'r enwau eraill arno yw 'gwersyll' neu 'Atchin Tan'. Mae'r rhain i'w defnyddio dros y tymor byr i helpu Awdurdodau Lleol lle y derbynnir bod angen lleiniau ond nad oes dim ar gael ar y pryd. Gellir adleoli gwersylloedd mewn lleoedd amhriodol i fannau aros dros dro sydd wedi'u pennu ymlaen llaw wrth baratoi safleoedd eraill.</p> <p>Rhaid darparu ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra ar fannau aros dros dro.</p>
Llain breswyl	<p>Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai fod eu cytundeb llain yn nodi fel arall). Fel arfer bydd yn cynnwys bloc amwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a lle parcio.</p>
Llain dramwy	<p>Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am 3 mis ar y mwyaf.</p> <p>Gellir cael lleiniau tramwy ar safleoedd preswyl parhaol ond nid yw hyn yn cael ei argymhell.</p>
Gwersyll diawdurdod	<p>Tir wedi'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog neu heb gael caniatâd cynllunio cywir i ddefnyddio'r tir. Caiff yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd tra bydd safleoedd eraill yn cael eu datblygu.</p>
Datblygiad diawdurdod	<p>Tir wedi'i feddiannu gan y perchennog heb gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio'r tir.</p>
Cyflenwad presennol o leiniau preswyl	<p>Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac wedi'u meddiannu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat.</p>
Galw presennol am leiniau preswyl	<p>Y rheini y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am wahanol resymau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • anallu i sicrhau llain awdurdodedig sydd wedi arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod; • anallu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod; • aelwydydd sy'n profi gorlenwi ac sydd am gael llain; • aelwydydd mewn tai confensiynol sy'n dangos gwrthwynebiad diwylliannol; • aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o leoedd eraill.

Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol	Nifer yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio a fydd yn creu mwy o alw o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad o lety a chyfnod hirach y CDLI.
Cyfanswm yr angen am leiniau preswyl	Y cyfrif terfynol o anghenion llety sydd heb eu diwallu sydd i'w bennu drwy broses yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio'r angen presennol am leiniau preswyl at y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd cyfanswm yr angen am leiniau preswyl yn dangos yr anghenion dros y cyfnod 5 mlynedd y mae'r asesiad o lety'n cael ei ystyried yn ddibynadwy.
Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos am fod aelwydydd wedi symud i dai confensiynol neu oherwydd amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor a safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl.
Aelwyd	Yn y canllawiau hyn mae'n golygu unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain neu mewn un tŷ / gwersyll.
Aelwyd gudd neu ddwbl	<p>Mae hyn yn golygu aelwydydd sy'n methu â chael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw yn lle hynny mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) sydd wedi'i aseinio i aelwyd arall.</p> <p>Gall hyn gynnwys plant sydd bellach yn oedolion sydd wedi methu â symud i'w cartref eu hunain neu aelwydydd gwahanol sy'n meddiannu un llain.</p>
Twf mewn aelwydydd	Y diffiniad o dwf mewn aelwydydd yn y canllawiau hyn yw nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes mewn llety yn yr ardal.

Pennod Un: Cyflwyniad

1. Mae'r Canllawiau Statudol hyn wedi'u llunio i helpu Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Cyhoeddwyd y canllawiau o dan adran 106 o Ddeddf 2014.

2. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr ("GTAA") a darparu ar gyfer safleoedd os yw'r asesiad yn dangos bod angen nas diwallwyd am leiniau i gartrefi symudol.

3. Mae'r canllawiau hyn yn egluro:

- a. Pam mae angen GTAA penodol?
- b. Beth y dylid ei gynhyrchu?
- c. Â phwy mae angen ymgynghori?
- d. Pa ffynonellau data sydd i'w hadolygu?
- e. Deall diwylliant cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
- f. Sut i bennu pwy yw Sipsiwn a Theithwyr a sut i gyfathrebu â nhw?
- g. Sut i gynllunio, rheoli a chynnal GTAA?
- h. Cymorth i weithio mewn partneriaeth ac i weithio ar lefel ranbarthol.
- i. Ystyried arolygon arbenigol, dulliau a chwestiynau i'w defnyddio.
- j. Sut i asesu 'angen' llety?
- k. Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru.
- l. Sut i ddarparu ar gyfer angen dynodedig?

4. Bydd **Pennod Dau** yn helpu Awdurdodau Lleol i ystyried cwmpas daearyddol eu GTAA, yn egluro sut i ddatblygu grŵp llywio prosiect a sut i gynllunio'r astudiaeth, a sut i fynd ati i gynnal yr astudiaeth ei hun. Bydd **Pennod Tri** yn egluro sut i ddadansoddi'r data sy'n codi yn ystod yr astudiaeth a sut i gyfrifo anghenion yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae **Pennod Pedwar** yn disgrifio'r broses ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru er mwyn craffu arnynt ac ar gyfer cyflwyno adborth arnynt wedyn a'u cyhoeddi. Mae **Pennod Pump** yn cynnwys opsiynau i'w hystyried gan Awdurdodau Lleol wrth drafod sut i ddarparu ar gyfer anghenion a nodwyd yn y GTAA. Yn olaf, mae **Pennod Chwech** yn egluro'r broses ar gyfer adolygu a diweddarau asesiadau a dogfennau cysylltiedig maes o law.

5. Yn ogystal â hynny, mae'r canllawiau hyn yn cynnwys holiadur cyffredinol (**Atodiad 2**) i'w ddefnyddio yn ystod cyfweiliadau â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y ffordd o wneud hynny'n cael ei hegluro'n fwy manwl ym Mhennod Dau.

6. Mae eglurhad o dermau pwysig a ddefnyddir drwy'r ddogfen hon ar ôl y dudalen cynnwys.

7. Mae rhestr hefyd o sefydliadau perthnasol i helpu Awdurdodau Lleol wrth iddynt gynnal GTAA (**Atodiad 1**).

Pam asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr?

8. Yn aml yn y gorffennol nid yw anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr wedi cael eu hasesu'n ddigonol drwy'r broses o asesu anghenion tai gan Awdurdodau Lleol. O ganlyniad i hyn, cafwyd diffyg dealltwriaeth o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn awr ac i'r dyfodol.

9. Mae'r broses o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn dangos bod angen hynny, wedi dod yn ofynion statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r anghenion a ddynodir drwy'r broses hon i'w cynnwys hefyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol cyffredinol pan gaiff ei ddiweddarau er mwyn sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu prif ffrydio yn y strategaeth dai leol. Dylid dynodi asiantaeth arweiniol i lywio'r broses asesu, gan sicrhau ei bod yn cyrraedd targedau a cherrig milltir pwysig ar gyfer cynnydd. Yr Awdurdod Tai Lleol fydd yr asiantaeth arweiniol fel arfer, gan mai ef yw'r corff tai strategol. Mae canllawiau ar gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ar wefan Llywodraeth Cymru.

10. Mae'r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' at ddibenion y broses asesu llety hon i'w gael yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Ystyr Sipsiwn a Theithwyr yw:

“(a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:

- personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol; a
- aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a
- unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.”

11. Amcan y diffiniad uchod yw sicrhau bod Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig ethnig wedi'u cynnwys, yn ogystal â'r rheini mewn unrhyw grŵp ethnig sy'n arfer ffordd nomadig o fyw. Mae'r diffiniad hefyd yn cwmpasu Siewmyn Teithiol. Gellid cynnwys Teithwyr Newydd yn y diffiniad os gallant ddangos bod ganddynt draddodiad nomadig a thraddodiad o fyw mewn cartrefi symudol. Ni fydd angen o reidrwydd i aelodau'r cymunedau hyn ddangos eu bod yn parhau i arfer ffordd nomadig o fyw er mwyn cael eu hystyried yn Sipsiwn neu Deithwyr at ddibenion yr asesiad hwn.

12. Mae angen defnyddio diffiniad eang er mwyn deall anghenion llety'r cymunedau hyn yn glir. Mae'n bosibl y bydd Sipsiwn a Theithwyr, a'u plant a pherthnasau eraill, sy'n byw mewn tai confensiynol ymysg y rhai a fydd yn creu'r angen a'r dyhead am gael safleoedd yn y dyfodol, a bydd yn rhaid deall hyn. Bydd asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai yn gymorth hefyd i bennu ffyrdd o sicrhau bod y ddarpariaeth tai yn diwallu eu hanghenion yn well, a'i gwneud yn fwy deniadol i Sipsiwn a Theithwyr yn gyffredinol. Nid cymell y cymunedau hyn i integreiddio drwy fyw mewn tai confensiynol yw'r nod. Er hynny, drwy addasu a gwella tai, mae'n bosibl y bydd llai ohonynt yn gadael neu'n dymuno gadael tai confensiynol i fyw ar safleoedd. Efallai hefyd y bydd rhai sy'n byw ar safleoedd diawdurdod ar hyn o bryd am symud neu ddychwelyd i fyw mewn tai os byddant yn fwy addas i'w hamgylchiadau.

13. Mae cyfraith achosion wedi cadarnhau bod Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau hiliol cydnabyddedig i ddibenion Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Mae'r grwpiau hyn yn parhau'n grwpiau hiliol cydnabyddedig i ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010. Dylid pennu, deall ac ymdrin ag anghenion llety'r holl Sipsiwn a Theithwyr drwy'r fframwaith cynllunio a'r strategaeth dai ar yr un sail â sectorau eraill yn y gymuned.

14. Mae fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Teithio i Ddyfodol Gwell (2011) yn cyfleu gweledigaeth ar gyfer llety diwylliannol briodol i'r cymunedau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod dewis eang o fathau llety ar gael i ddiwallu anghenion holl aelodau'r gymuned. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o'r gymuned ac, yn hyn o beth, dylai Sipsiwn a Theithwyr gael yr un cyfle i gael llety diwylliannol briodol ag sydd gan holl aelodau eraill y gymuned.

15. Rhaid meithrin dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â llety i Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth yn briodol ac osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ad hoc neu ddiawdurdod. Bydd asesiad llety cynhwysfawr (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) a strategaeth i gwrdd â'r angen a ddynodir yn gymorth mawr i Awdurdodau Lleol drwy eu galluogi i ymateb yn gyflym a chadarn pan geir datblygiadau a gwersylloedd diawdurdod a'u helpu i osgoi gwersylla a datblygu diawdurdod yn y dyfodol.

Pam mae angen asesiad ar wahân ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?

16. Fel arfer nid yw Sipsiwn a Theithwyr ond yn ganran fach iawn o'r boblogaeth mewn ardal benodol. Roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys categori ethnig newydd ar gyfer 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' ac mae'r data a gasglwyd yn awgrymu bod 2,785 o bobl yn y categori hwn yng Nghymru. Mae'n bosibl nad yw'r nifer hwn yn cynnwys aelodau o'r cymunedau hyn sy'n petruso rhag eu cynnwys eu hunain yn y categori hwn gan ofni gwahaniaethu, am eu bod yn ymuniaethu'n fwy â chategoriâu ethnigrwydd eraill (e.e. Gwyddelig Gwyn) neu am resymau eraill, er bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Credir mai lleiafrif o'r nifer hwn sy'n byw mewn llety ar safleoedd carafannau neu'n chwilio am lety o'r fath.

17. O ganlyniad i wahaniaethau diwylliannol, amharoddrwydd ar ran rhai aelodau o'r cymunedau hyn i ddatgan eu hethnigrwydd fel Sipsiwn neu Deithwyr, neu ddiffyg awydd cymryd rhan mewn proses sy'n anghyfarwydd iddynt, mae proses y prif asesiad o'r farchnad dai yn llai tebygol o lawer o gyrraedd y grŵp hwn na grwpiau eraill. At hynny, mae'n bosibl y bydd ffordd o fyw a diwylliant neilltuol y Sipsiwn a Theithwyr yn creu anghenion llety gwahanol a fydd yn annhebygol o gael eu nodi yn y prif asesiad.

18. Er hynny, ni ddylid gorliwio'r gwahaniaethau hyn. Mae nifer mawr o Sipsiwn a Theithwyr wedi ymsefydlu'n barhaol mewn tai neu ar safleoedd preswyl cyhoeddus neu breifat. Mae canran fach o'r boblogaeth yn byw mewn gwersylloedd diawdurdod neu ddatblygiadau diawdurdod. Credir bod y ganran o'r boblogaeth sy'n arfer ffordd nomadig o fyw drwy'r amser yn fach iawn. Er hynny, mae'n hanfodol bod Awdurdodau Lleol yn asesu anghenion y boblogaeth nomadig yn ogystal â'r rheini sy'n fwy sefydlog.

19. Mae'n debygol bod rhai o'r rheini sy'n byw mewn tai confensiynol wedi rhoi'r gorau i fyw mewn cartrefi symudol oherwydd diffyg opsiynau cyfreithlon, efallai am nad oedd yr Awdurdod Lleol lle maent yn preswyllo wedi darparu digon o lety ar safleoedd.

20. Yn wahanol i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol mwy cyffredinol, sydd i gael ei ddiweddarau bob dwy flynedd, rhaid ailgynnal yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr bob 5 mlynedd o leiaf.

Er bod rhaid cynnal yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn fwy aml, mae'n galw am asesu data eilaidd yn bennaf, yn wahanol i'r arolwg mwy manwl yn null Cyfrifiad sydd ei angen ar gyfer yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr.

21. Rhaid defnyddio dull mwy manwl y Cyfrifiad (neu arolwg o ddata 'cynradd') i asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr am fod eu nifer yn fach ac am fod eu hanghenion llety o fath penodol. Byddai defnyddio ystadegau sydd ar gael (neu ddata 'eilaidd') yn gallu arwain at wallau annisgwyl yn yr amcanestyniadau dros amser. Nid yw'n debygol y byddai asesiadau o anghenion y dyfodol yn ystadegol gadarn o'u seilio ar y data am Sipsiwn a Theithwyr sydd ar gael yn barod. Un o'r rhesymau am hyn yw bod eu cymunedau'n fach a hefyd am mai prin iawn yw'r data sydd ar gael am anghenion llety'r cymunedau hyn ym mhob ardal leol.

22. O ganlyniad i hyn, bydd yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr yn galw am gynnal arolwg o ddata cynradd (a gesglir drwy ddull Cyfrifiad), yn ogystal ag adolygiad o'r data sydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn egluro'r broses hon yn fwy manwl ym **Mhennod Dau**.

Â phwy mae angen ymgynghori drwy'r Asesiad Llety?

23. Yng nghyswllt y diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd uchod, rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau y ceir ymgynghori uniongyrchol â'r gwahanol gymunedau sy'n rhan o'r diffiniad a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu. Gall hyn gynnwys (ymysg eraill) Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Teithwyr Newydd, a Siewmyn Teithiol sy'n preswyllo neu'n ymgynnull yn eu hardal.

24. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr wedi ceisio ymgynghori â chymunedau o Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn eu hardal. Fodd bynnag, mewn llawer achos dim ond y rheini sy'n byw ar safleoedd awdurdodedig a oedd wedi'u cynnwys. Rhaid asesu anghenion y rheini sy'n byw ar safleoedd diawdurdod ac mewn tai confensiynol hefyd drwy ymgynghori â nhw'n uniongyrchol.

25. Mewn rhai rhannau o'r wlad, mae Teithwyr Newydd yn lleiafrif sylweddol yn y boblogaeth deithiol. Er bod y bobl hyn wedi mabwysiadu ffordd nomadig o fyw'n gymharol ddiweddar, dylid asesu eu hanghenion ochr yn ochr â'r rheini mewn grwpiau mwy traddodiadol o Sipsiwn a Theithwyr. Byddai peidio â gwneud hynny'n golygu anwybyddu anghenion un rhan o'r gymuned, gan arwain at y posibilrwydd o ddigartrefedd neu sefydlu safleoedd diawdurdod a chymryd camau cyfreithiol yn eu herbyn. Mae'n bwysig nodi bod Siewmyn Teithiol, wrth deithio gyda'i gilydd ar gyfer eu gwaith, yn dod o dan y diffiniad hwn. Os bydd angen lle i'r grŵp hwn dreulio'r gaeaf, dylai Awdurdodau Lleol asesu'r angen hwn drwy'r asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr, gan y bydd nifer o'r ystyriaethau o ran llety yn debyg.

26. Rhaid i Awdurdodau Tai Lleol allu dangos eu bod wedi ymgynghori'n uniongyrchol â chynifer â phosibl o aelodau o'r cymunedau hyn sy'n preswyllo neu'n ymgynnull yn eu hardal, drwy ddull Cyfrifiad. Bydd adolygiadau o ffynonellau data (sydd wedi'u disgrifio ym **Mhennod Dau**) a chydgyssylltu â sefydliadau cymorth Sipsiwn a Theithwyr (**Atodiad 1**) i adnabod a chynnwys aelodau o gymunedau'n helpu i gwrdd â'r amcan hwn.

27. Dylid cadw log cyfweiliadau i ddangos bod y broses asesu wedi ceisio cynnwys yr holl Sipsiwn a Theithwyr hysbys yn yr ardal. Os bydd ymdrechion mynych i ymgysylltu ag aelodau o gymunedau wedi methu, rhaid nodi hynny'n glir yn y log o gyfweiliadau ag aelodau o gymunedau. Dylid cofnodi'r rhesymau dros beidio â chymryd rhan hefyd os ydynt yn hysbys. Mae drafft o log cyfweiliadau wedi'i ddarparu yn **Atodiad 3**.

28. Gall Gweinidogion Cymru ofyn am weld y log cyfweiliadau hwn wrth ystyried a fyddant yn cymeradwyo neu'n gwrthod asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr gan Awdurdodau Lleol, os na chafodd ei gyflwyno yn y lle cyntaf.

29. Er mwyn cael amcangyfrif dibynadwy o'r angen am leiniau preswyl, mae'n hanfodol cael cynifer â phosibl o ymatebion gan aelodau o'r cymunedau. Dylai Awdurdodau Lleol ofalu eu bod yn dilyn y 'rhestr wirio ymgysylltu' (Tabl 2 –) er mwyn cyrraedd cynifer â phosibl o aelodau o'r cymunedau.

30. Mae'n bosibl na fydd yn amlwg bob tro a yw grŵp penodol yn dod o dan y diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1985 mae'n ofynnol bod pob Awdurdod Tai Lleol yn ystyried anghenion am ddarparu mwy o dai yn ei ardal ac, er mwyn cyflawni hynny, ei fod yn adolygu unrhyw wybodaeth sydd wedi'i thynnu i'w sylw. Felly, os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu na fydd yn asesu anghenion llety grŵp penodol o dan y canllawiau hyn yng nghyd-destun y GTAA, bydd dyletswydd arno er hynny i adolygu'r anghenion hynny o dan y gofyniad cyffredinol yn adran 8.

31. Nid yw'r ffaith bod rhywun wedi'i gynnwys yn yr arolwg fel Sipsi neu Deithiwr yn ôl y diffiniad ym mharagraff 10 uchod yn golygu, ynddo'i hun, y dylai'r person hwnnw fyw ar safle. Fodd bynnag, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cydgrynhoi'r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ac mae hyn yn golygu bod 'statws Sipsiwn' gan bob unigolyn o'r fath yng nghyd-destun cynllunio.

32. Os pennwyd bod angen lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr, bydd Awdurdodau Tai Lleol yn parhau'n gyfrifol am ddyrannu lleiniau ar safleoedd. Gall Awdurdodau Tai Lleol ystyried nifer o ffyrdd gwahanol o ddiwallu'r angen am leiniau, gan gynnwys:

- llety ar safleoedd rhentu cymdeithasol (safleoedd sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdod Lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig);
- llety ar safleoedd preifat i Sipsiwn a Theithwyr;
- creu safleoedd drwy Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.

33. Os pennwyd bod angen lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried sut i greu'r ddarpariaeth sydd ei hangen (yn unol â'r broses sydd wedi'i disgrifio ym **Mhennod Pump**).

34. Mae'n debygol iawn y bydd yr angen am leiniau'n codi o'r grwpiau canlynol:

Aelwydydd sy'n preswyllo mewn Cartrefi Symudol:

- nad oes safle awdurdodedig ar gael yn unman i'w cartrefu;
- y mae eu llety presennol ar safle yn orlawn neu'n anaddas ac sy'n methu â chael llety mwy neu fwy addas;
- sy'n cynnwys aelwydydd sy'n methu â sefydlu unedau teuluol ar wahân ac sy'n methu â chael lle ar safle awdurdodedig neu ddatblygu eu safle eu hunain.

Aelwydydd sy'n preswyllo mewn tai confensiynol:

- y mae eu llety presennol yn orlawn neu'n anaddas (mae 'anaddas' yn y cyd-destun hwn yn cynnwys bod yn anaddas oherwydd gwrthwynebiad seicolegol i breswyllo mewn tai confensiynol);
- sy'n cynnwys aelwydydd cudd sy'n methu â sefydlu unedau teuluol ar wahân ac sy'n methu â chael llety addas neu briodol.

35. Dylid cydnabod hefyd fod prinder safleoedd a gwrthwynebiad lleol i geisiadau cynllunio am safleoedd, yn ogystal â diffyg incwm, yn gallu atal Sipsiwn a Theithwyr rhag dewis yn rhydd yn y farchnad lety – a'i bod yn bosibl nad oes 'marchnad lety leol' mewn safleoedd.

Beth ddylai ddeillio o'r asesiad llety?

36. Pwrpas yr asesiad yw darparu data a fydd yn dangos yr angen am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i'r galw a'r dyheadau cyffredinol.

37. Rhaid i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu GTAA i Weinidogion Cymru a fydd wedyn yn craffu arno ac yn penderfynu ei gymeradwyo neu ei wrthod. Bydd yn rhaid cyhoeddi adroddiadau asesiadau llety sydd wedi'u cymeradwyo.

38. Ar ôl ei gwblhau, bydd y GTAA yn rhoi i'r Awdurdod Lleol yr holl ddata perthnasol sydd eu hangen ar gyfer ei strategaeth dai leol a'i bolisiau ar ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn ei Gynllun Datblygu.

39. Drwy asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, gellir eu deall a'u disgrifio ochr yn ochr ag anghenion tai eraill. Yn yr un modd â gweddill y gymuned, y prif reswm dros gynnal asesiadau o anghenion yw deall a chwrdd ag anghenion, nid deall y galw neu ddyhead yn unig.

Sut y bydd yn wahanol i asesu anghenion tai pobl heblaw Sipsiwn a Theithwyr?

40. Yr un fydd y nodau wrth asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr ag ar gyfer sectorau eraill yn y gymuned. Fodd bynnag, oherwydd prinder y llety i Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â ffordd o fyw a diwylliant neilltuol Sipsiwn a Theithwyr, bydd y broses adolygu'n wahanol iawn. Yn wahanol i sectorau eraill yn y gymuned, mae Sipsiwn a Theithwyr yn preswyllo mewn tri math o lety'n bennaf:

- tai confensiynol;
- safleoedd awdurdodedig i gartrefi symudol o dan berchenogaeth yr Awdurdod Lleol neu berchenogaeth breifat;
- safleoedd diawdurdod (un ai gwerylloedd diawdurdod ar dir nad ydynt yn berchen arno neu ddatblygiadau diawdurdod ar dir sy'n eiddo iddynt).

41. Gall anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fod yn wahanol i weddill y boblogaeth oherwydd:

- eu ffordd nomadig neu led-nomadig o fyw;
- y diwylliant o breswyllo mewn carafannau sydd gan rai; symud i fyw rhwng tai a charafannau;
- eu presenoldeb mewn gwerylloedd neu ddatblygiadau diawdurdod;
- ffyrdd o fyw mewn teuluoedd estynedig.

42. Mae'r symud rhwng ardaloedd yn creu'r goblygiadau posibl hyn ar gyfer cynnal asesiad:

- y posibilrwydd o weithio ar lefel ranbarthol i gynnal asesiadau a sicrhau ffyrdd o ddarparu safleoedd;
- bydd angen ystyried amseriad yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr (gweler paragraff 114);

- mae'n bosibl y bydd angen gofyn cwestiynau gwahanol (gweler Atodiad 2);
- efallai y bydd angen defnyddio ffynonellau data gwahanol (gweler paragraff 85).

43. Mae'n bwysig ystyried:

- Sut y byddwch yn pennu ac yn ymgysylltu â'r rheini sydd i'w cynnwys yn yr arolwg (gweler paragraff 91);
- Sut y bydd cyfwelwyr yn geirio cwestiynau (gweler paragraff 116).

44. Os mai ychydig o wybodaeth neu ddata dibynadwy sydd gan eich awdurdod am Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bwysicach byth eich bod yn cynnwys grwpiau sy'n cynorthwyo'r cymunedau hyn er mwyn sicrhau bod yr asesu mor gywir â phosibl. Ar ôl cwblhau'r GTAA cyntaf yn 2015/16, rhaid ailgynnal y broses bob 5 mlynedd o leiaf i sicrhau bod y dystiolaeth yn parhau'n gadarn. Gall Awdurdodau Lleol gynnal y GTAA yn amlach os byddant yn dewis. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym **Pennod Chwech**.

45. Rydym hefyd yn argymhell bod Cynghorwyr lleol yn cael eu hysbysu am y gofyniad i gynnal GTAA ac am y canllawiau hyn. Mae darparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn gallu bod yn fater sensitif mewn cymunedau a bydd mantais mewn sicrhau bod aelodau Cyngor wedi'u briffio'n drwyadl o'r dechrau.

Pennod Dau: Cynnal yr asesiad

Paratoi a gweithio mewn partneriaeth

46. Oherwydd y sensitifrwydd a geir yn aml ynghylch materion Sipsiwn a Theithwyr, bydd yn bwysig iawn cynnwys gwleidyddion lleol a'r gymuned sefydlog yn y broses asesu llety. Os na fydd y broses yn cael ei gweld yn un ddilys, bydd yn fwy anodd sicrhau cefnogaeth i'r camau a gymerir wedyn i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Rhaid ystyried y perygl o weld y broses yn un annilys wrth gynllunio'r astudiaeth, gan y bydd y data hyn yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer asesu ceisiadau am safleoedd yn y dyfodol ac ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae hefyd yn hanfodol bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn ymddiried yn y broses ac yn ei derbyn. Fel arall, gall fod yn anodd cynnwys aelodau o'r cymunedau a bydd hyn yn amharu ar gywirdeb yr asesiad.

47. Yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am benderfynu pa asiantaeth arweiniol fydd yn llywio'r broses asesu. Fel arfer, yr Awdurdod Lleol ei hun fydd yn arwain, drwy'r Adran Dai neu'r Adran Gynllunio. Bydd yn bwysig bod pwy bynnag a gaiff ei benodi'n sicrhau bod yr Adran Dai a'r Adran Gynllunio yn cydweithio'n agos, bod ganddynt awdurdod priodol i weithredu ar ganlyniad y broses, a bod polisïau'n cael eu mabwysiadu ar draws yr Awdurdod Lleol.

48. Er mai'r Awdurdodau Lleol eu hunain sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad, gallant weithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae'r manteision posibl o weithredu fel hyn yn berthnasol iawn yng nghyswllt Sipsiwn a Theithwyr oherwydd eu patrymau symud a theithio, sy'n dueddol o groesi ffiniau Awdurdodau Lleol, a rhaid deall y rhain er mwyn darparu safleoedd tramwy priodol. Gellir arbed costau a chael data gwell i asesu anghenion drwy weithio mewn partneriaethau rhanbarthol.

49. Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynnal ei asesiad llety cyntaf o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 o fewn 12 mis ar ôl cychwyn darpariaethau'r ddeddf. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i awdurdodau i gydweithio i lunio aseidiadau rhanbarthol o anghenion am leiniau preswyl. Er hynny, mae Awdurdodau Lleol yn rhydd i ddewis cynnal GTAA unigol neu GTAA rhanbarthol.

50. Wrth weithio mewn partneriaeth dylid ceisio sicrhau:

- gwell dealltwriaeth o anghenion ar draws ffiniau'r awdurdodau;
- gwell dealltwriaeth o batrymau teithio;
- dull cyson a chyffredin o weithredu ar draws yr ardal;
- arbedion cost a maint;
- llai o berygl o gyfrif ddwywaith;
- cyfleoedd i gydweithio i ddyfeisio dull strategol a chytûn o ddelio â phrinder safleoedd ar gyfer cartrefi symudol Sipsiwn a Theithwyr.

51. Os bydd Awdurdodau Lleol yn awyddus i lunio GTAA rhanbarthol, rhaid cynnal trafodaethau cynnar ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth i bennu'r cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, a'r ardaloedd mwyaf priodol i'w cynnwys. Byddai unrhyw oedi yn y broses o gynnal y GTAA neu o fabwysiadu ei ganfyddiadau'n gallu rhoi Awdurdodau Lleol mewn perygl o dorri eu dyletswydd statudol i gyflwyno'r GTAA i Weinidogion Cymru o fewn y terfynau amser a bennwyd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Felly bydd yn hanfodol bod

unrhyw bartneriaeth ranbarthol yn cytuno'n gynnar ar y broses ar gyfer comisiynu GTAA a mabwysiadu ei ganfyddiadau.

52. Wrth asesu pa ardaloedd a ddylai gydweithredu i ddeall anghenion rhanbarthol, bydd yn bwysig bod Awdurdodau Lleol yn ystyried y wybodaeth a'r profiad sydd gan eu swyddogion ac aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol. Bydd yr ardal sydd i'w chynnwys wedi'i seilio'n bennaf ar batrymau symud a theithio o fewn y rhanbarth neu, os yw safleoedd yn agos i'r ffiniau rhwng awdurdodau, ar ba aelodau o'r cymunedau a fydd yn gallu eu hegluro. Drwy gynnwys unigolion allweddol o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn gynnar yn y trafodaethau hyn, gallant gyfrannu at benderfynu ar yr ardal bartneriaeth a fydd yn rhoi'r canlyniadau mwyaf effeithiol.

53. Bydd yn hanfodol bod modd datgyfuno'r data sy'n deillio o asesiadau ar y cyd ar lefel yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod pob partner yn cadw ei sylfaen wybodaeth ei hun a'i fod yn gallu darparu'r wybodaeth hon mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig â gwrandawriadau ar y Cynllun Datblygu, ymchwiliadau cynllunio neu apêl sy'n ymwneud yn benodol â'r sefyllfa ym mhob Awdurdod Lleol.

54. Os oes Awdurdod Parc Cenedlaethol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol, rhaid bod modd datgyfuno'r data ar gyfer yr ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i ffin yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Y rheswm am hyn yw ei bod yn ofynnol hefyd i Awdurdodau Parc Cenedlaethol lunio Cynlluniau Datblygu a bydd y GTAA yn darparu tystiolaeth ar gyfer pob cynllun.

55. Mae hefyd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno asesiadau llety i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, sy'n dynodi'r anghenion o fewn ardal yr Awdurdod Lleol unigol. Mae'r ddyletswydd i gynnal GTAA, o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, wedi'i gosod ar Awdurdodau Lleol unigol, yn hytrach na phartneriaethau rhanbarthol. Felly, mae pŵer gan Awdurdodau Lleol i gynnal GTAA yn annibynnol os credant fod hynny'n fwy priodol neu ymarferol.

Rheoli'r prosiect

56. Bydd y grŵp sy'n llywio'r gwaith yn helpu i sicrhau bod y broses yn cynnwys yr holl arbenigedd sydd ar gael er mwyn llunio'r asesiad mwyaf effeithiol posibl. Bydd yn bwysig bod rhanddeiliaid allweddol yn gwybod am y broses ac yn cymryd rhan ynddi'n gynnar. Mae'n hanfodol bod y grŵp yn cynnwys y rheini sydd wedi sefydlu rhwydweithiau o fewn y cymunedau hyn a'r rheini sy'n atebol am gwrdd ag anghenion llety'r cymunedau hyn. Gall gynnwys cynrychiolwyr:

- Adrannau Tai a Chynllunio'r Awdurdod Lleol;
- cymunedau Sipsiwn a Theithwyr leol;
- sefydliadau sy'n cynorthwyo cymunedau Sipsiwn a Theithwyr (Atodiad 1);
- gwasanaethau perthnasol eraill fel gwasanaethau addysg i Deithwyr, swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr neu weithwyr byrddau iechyd sy'n cydweithio'n agos â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac sydd â'r wybodaeth orau am gymunedau yn yr ardal;
- Cynghorydd Awdurdod Lleol, er enghraifft, deiliad y portffolio Cydraddoldeb neu Gynllunio.

57. Hefyd gall fod yn fanteisiol cynnwys rhywun sydd â gwybodaeth fanwl am y GTAA mewn ardaloedd cyfagos.

58. Bydd yn bwysig cynnwys aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol yn y grŵp llywio a rhaid peidio ag anghofio hyn na'i ohirio. Drwy eu cynnwys gellir gwrthweithio'r syniad bod yr astudiaeth yn cael ei gwneud 'ar gyfer' cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, yn hytrach na 'gyda' nhw. Mae hefyd yn bosibl y byddant yn cynnig dealltwriaeth hanfodol o batrymau teithio'r cymunedau a'r angen i weithio ar lefel ranbarthol neu beidio. Ceir mwy o gyfleoedd hefyd drwy eu cynnwys i hysbysebu'r astudiaeth ymysg aelodau'r gymuned ac ystyried y ffordd orau o gynnwys aelodau'r gymuned wrth gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

59. Gall rhai aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr fod yn amharod i gymryd rhan yn yr arolwg i gasglu data cynradd oherwydd profiad o gael eu cyf-weld yn y gorffennol lle nad oedd hynny wedi arwain at ddatblygu safleoedd angenrheidiol. Bydd cynnwys aelodau o'r gymuned yn y grŵp llywio yn helpu i sicrhau rhai yn y gymuned fod y GTAA yn debygol o arwain at ganlyniad cadarnhaol.

60. Wrth ddewis aelodau o'r gymuned i gymryd rhan yn y grŵp llywio, gellid rhoi cyfle i aelodau'r gymuned eu hunain i enwebu unigolion uchel eu parch. Hefyd byddai sefydliadau sy'n cydweithio'n agos â'r cymunedau hyn yn gallu enwebu'r rheini a fydd yn eu barn nhw'n hyrwyddo nodau'r grŵp llywio. Er na fydd yr aelodau o'r gymuned yn cyfleu barn pawb yn y gymuned, gallant gynnig safbwynt gwahanol fel aelodau o'r gymuned y mae ei hanghenion llety'n cael eu hasesu. Yn ogystal â hyn, gall aelodau o'r gymuned gynnig cyngor ynghylch a yw'r dulliau ymgysylltu arfaethedig yn briodol, pa gwestiynau y gellir eu disgwyl gan y gymuned a ffyrdd o reoli disgwyliadau. Mae'n debygol mai lleiafrif fydd cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr ar y grŵp llywio. Er hynny, dylai'r Awdurdod Lleol geisio sicrhau bod eu barn yn cael sylw dyladwy gan eu bod yn fwy tebygol o allu cynnig gwybodaeth am eu cymunedau eu hunain.

61. Mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yn fach, efallai na fydd modd cael cynrychiolaeth o'r cymunedau hyn ar y grŵp llywio. Fodd bynnag, oherwydd y fantais debygol o gael aelodau o'r fath yn y grŵp, dylai Awdurdodau Lleol wneud popeth yn eu gallu i gynnwys aelodau o'r cymunedau. Gallai fod yn haws sicrhau cyfranogiad drwy ymdrechion gan aelodau o'r grŵp llywio sy'n ymwneud ag addysg neu iechyd, gan ei bod yn debygol bod ganddynt fwy o gysylltiadau.

62. Bydd cyfrifoldebau amrywiol gan y grŵp llywio, gan gynnwys:

- a. argymhell ardal yr arolwg;
- b. pennu nodau a chanlyniadau'r astudiaeth;
- c. penodi ymchwilwyr (mewnol neu allanol);
- d. hysbysebu'r astudiaeth ymysg rhanddeiliaid;
- e. darparu gwybodaeth leol i'r ymchwilwyr;
- f. darparu adborth i'r rheini sy'n ymateb i'r ymgynghoriad ac i randdeiliaid;
- g. sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cymryd o ddifrif a bod camau'n cael eu cymryd yn eu cylch.

63. Ar ôl penderfynu ar ardal yr arolwg, ac ar unrhyw gydweithredu ag Awdurdodau Lleol eraill, dylai'r grŵp llywio bennu'r nodau a chanlyniadau y mae'n gobeithio eu cael o'r asesiad llety. Rhai o'r canlyniadau allweddol fydd cydymffurfio â dyletswyddau'r Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a deall anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys yr angen am leiniau i gartrefi symudol y mae'n rhaid eu darparu yn yr ardal. Mae'n bosibl y bydd aelodau'r grŵp llywio am gyflawni nodau eraill hefyd. Er enghraifft, deall sut y byddai newidiadau mewn gwasanaeth cyhoeddus penodol yn effeithio ar gymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol.

64. Dylai'r Awdurdod Lleol ddefnyddio'r holiadur cyffredinol yn **Atodiad 2** er mwyn sicrhau bod modd dadansoddi data allweddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y grŵp llywio am ystyried ychwanegu cwestiynau dewisol ar ddiwedd yr holiadur i gasglu data sy'n ymwneud â'r ardal leol er mwyn cyflawni canlyniadau eraill. Os yw holiadur hirach i gael ei ddefnyddio, rydym yn argymhell ei fod yn cael ei dreialu gydag aelodau o'r gymuned i sicrhau na fydd pobl yn cael eu cymell i beidio â chymryd rhan oherwydd hyd y cyfweiliad.

65. Bydd y broses o bennu canlyniadau clir yn helpu'r grŵp llywio wrth benodi ymchwilyr i gasglu tystiolaeth a dadansoddi data ar gyfer yr asesiad llety. Gellir penodi staff mewnlol neu ymgynghorwyr allanol yn ymchwilyr. Mae mwy o wybodaeth am benodi ymchwilyr ym mharagraff 71.

66. Ar ôl penodi ymchwilyr, dylai'r grŵp llywio ganolbwyntio ar ddarparu cymorth. Yn gyntaf, dylai ddefnyddio ei rwydweithiau yn adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol ac mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau bod y GTAA wedi'i hysbysebu'n dda a bod yr holl aelodau o'r gymuned sydd am gymryd rhan yn gwybod sut i wneud hynny.

67. Hefyd dylai'r grŵp llywio geisio sicrhau bod yr ymchwilyr yn cael yr holl wybodaeth leol berthnasol a manylion am gysylltiadau fel y gallant lunio astudiaeth gyflawn o anghenion llety'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal. Bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried a chydymffurfio â gofynion ar gyfer diogelu data ac unrhyw gyfyngiadau ar rannu data.

68. Wedi i'r ymchwilyr gwblhau'r astudiaeth a dadansoddi'r canlyniadau, dylai'r grŵp llywio sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu i'r holl gyfranogwyr a rhanddeiliaid (gan gydymffurfio â gofynion ar gyfer diogelu data). Os na ddarperir adborth hawdd ei ddeall, mae perygl i'r cyfranogiad gan aelodau o gymunedau gael ei weld yn symbolaidd ac nid yn ystyrion gan na fydd unigolion yn gallu gweld sut y maent wedi dylanwadu ar bolisi lleol drwy gymryd rhan. Yn waeth byth, os na roddir adborth, gall hynny fod yn wrthgynhyrchiol gan y byddai'r un unigolion yn gallu gwrthod cymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol am eu bod yn teimlo "na fydd pethau byth yn newydd".

69. Yn olaf, un o rolau pwysicaf y grŵp llywio yw helpu'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu'r safleoedd sydd eu hangen i Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y grŵp llywio'n dod â'r sefydliadau ac unigolion allweddol at ei gilydd i sicrhau atebolrwydd am y cynnydd a wnaiff yr Awdurdod Lleol.

70. Os yw'r grŵp llywio wedi sicrhau aelodaeth gytbwys sy'n cynnwys rheolwyr a swyddogion strategol o'r Awdurdod Lleol, Sipsiwn a Theithwyr, a sefydliadau sy'n cynorthwyo'r cymunedau hyn, bydd digon o atebolrwydd i ymdrin â holl ganlyniadau'r asesiad. Os bydd GTAA wedi dangos bod angen nas diwallwyd am safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr a bod Gweinidogion Cymru wedi'u hargyhoeddi bod yr Awdurdod Lleol wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd i'w darparu, gellir cyfarwyddo'r Awdurdod Lleol i wneud hynny.

Penodi Ymchwilyr

71. Ar ôl penderfynu ar ardal yr arolwg a'r nodau, bydd angen penodi ymchwilyr i gynnal yr astudiaeth asesu llety. Yr opsiynau yw defnyddio:

- staff mewnlol – o is-adran Sipsiwn a Theithwyr neu adran dai'r Awdurdod os oes modd; neu
- ymgynghorwyr.

72. Gallai fod yn ddoeth cynnwys grwpiau gwahanol ar wahanol adegau – er enghraifft, staff mewnlol i adolygu'r data presennol, ac arbenigwyr allanol i gynnal cyfweiliadau yn null cyfrifiad â Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n bosibl y bydd Awdurdodau Lleol am gynnal asesiadau'n fewnlol er mwyn cryfhau eu perthynas â chymunedau lleol.

73. Os penodir ymgynghorwyr, rhaid bod yn ofalus iawn i sicrhau bod dealltwriaeth glir a manwl gan bawb sy'n ymwneud â'r asesiad o'r gwasanaeth y mae disgwyl i'r ymgynghorydd ei ddarparu, y dulliau a ddefnyddir a'r canlyniad arfaethedig.

74. Bellach mae rhai o'r sefydliadau sy'n cynorthwyo Sipsiwn a Theithwyr yn tendro am gynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr am fod ganddynt brofiad o ymgysylltu â'r cymunedau hyn ac am eu bod yn gallu adnabod grwpiau cudd yn y boblogaeth.

75. Ymysg y gwahanol fathau o ymgynghorwyr y mae cwmnïau ymchwil cymdeithasol, sefydliadau cymorth Sipsiwn a Theithwyr a sefydliadau academaidd. Gall pob un ohonynt fod â chryfderau penodol i helpu i ddatblygu'r asesiad llety.

76. Wrth ddod i benderfyniad, bydd yr Awdurdod Lleol am ystyried:

- gallu ac arbenigedd staff mewnlol;
- cymwysterau a hanes blaenorol yr ymgynghorwyr, gan gynnwys tystiolaeth bod cyfwelwyr wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol;
- pa mor effeithiol y bydd y gwahanol opsiynau o ran cyrraedd y grŵp sydd wedi'i dargedu (e.e. perthynas flaenorol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr neu a fyddai mantais mewn penodi'r Sipsiwn neu Deithwyr eu hunain i ymwneud â'r gymuned a sicrhau ymddiriedaeth y rheini sy'n cael eu hasesu);
- y gallu i ddadansoddi data cynradd ac eilaidd (gan ddilyn y canllawiau hyn) i asesu anghenion llety;
- y farn am effeithiolrwydd y broses, gan y bydd hynny'n hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn y canlyniadau;
- hygrededd pob un o'r opsiynau ymysg Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog;
- adnoddau a chostau.

77. Mae'n bwysig ystyried pob un o'r ffactorau hyn wrth asesu opsiynau ar gyfer comisiynu. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried penodi sefydliadau ac unigolion y bydd cymunedau lleol o Sipsiwn a Theithwyr yn ymddiried ynnddynt gan fod hyn yn debygol o ddenu mwy i gymryd rhan a sicrhau ymatebion mwy cymwys i'r holiadur. Mae'n bosibl y gellid contractio sefydliad y mae Sipsiwn a Theithwyr yn ymddiried ynndo i gynnal y cyfweiliadau, gan gadw'r cyfrifoldeb am ddadansoddi'r ymatebion i'r arolwg yn yr Awdurdod Lleol.

78. Mae'n debygol y bydd pob Awdurdod Lleol am ystyried ffactorau ychwanegol. Bydd y gost o gynnal yr asesiad yn ystyriaeth bwysig. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Lleol gofio y bydd Gweinidogion Cymru yn craffu ar natur yr ymgysylltu â chymunedau a'r graddau y mae'r dadansoddiad yn ddibynadwy cyn y gellir mabwysiadu'r asesiad. Yn ogystal â hyn, bydd yr asesiad yn cael ei gynnwys fel tystiolaeth yn y Cynllun Datblygu yn y pen draw, felly rhaid iddo fod mor ddibynadwy â phosibl.

79. Gallai'r canlyniadau, casgliadau neu strategaethau sy'n codi o'r asesiad fod yn destun her gyfreithiol neu adolygiad barnwrol. Drwy gynnal y broses asesu'n briodol a mabwysiadu polisiâu seiliedig ar dystiolaeth i ymdrin â'r canlyniadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu sicrhau bod ei weithredoedd a'i benderfyniadau mor gadarn â phosibl.

80. Gan y bydd y GTAA (a pholisïau sy'n deillio ohono mewn Cynlluniau Datblygu) yn destun craffu yn ystod y broses gynllunio, mae'n bwysig ystyried sut y bydd y broses y cytunir arni'n cael ei gweld.

Cynnwys rhanddeiliaid allweddol

81. Dylai rhanddeiliaid allweddol fod yn aelodau o grŵp llywio'r prosiect yn barod. Fodd bynnag, bydd angen ymgynghori'n ehangach hefyd ynghylch cynllunio a chynnal yr asesiad drwy gynnwys asiantaethau lleol a chymunedau lleol o Sipsiwn a Theithwyr. Un rhan o'r broses hon fydd mapio'r cymunedau lleol o Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau bod yr ymchwilyr yn cynnwys cynifer o bobl â phosibl. Bydd hefyd yn galw am roi prawf ar fethodoleg yr arolwg, gan gynnwys cynigion ynghylch pwy a fydd yn gofyn cwestiynau, yr amserlen ar gyfer cynnal cyfweiliadau, addasrwydd y cwestiynau, a'r geiriad a fydd yn hawsaf ei ddeall. Mae holiadur yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr yn Atodiad 2.

82. Bydd yn hanfodol egluro pwrpas y gwaith i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr cyn dechrau'r arolwg. Y bwriad fydd sicrhau cefnogaeth a chyfranogiad yn y broses. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu paratoi ffilm fer yng ngwanwyn 2015 i helpu cyfweilyr i egluro'r gwerth o gymryd rhan i Sipsiwn a Theithwyr. Rhaid egluro diben y gwaith o gasglu data a phwysleisio mai dim ond ar gyfer asesu a diwallu anghenion llety y bydd y data'n cael eu defnyddio. Lle mae dyheadau'n ymwneud ag aelwydydd yn symud ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol, dylid cynnig cyfle i aelwydydd i gydsynio i'w data gael eu rhannu ag awdurdodau eraill er mwyn trafod eu hanghenion. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried rhoi hysbysiad preifatrwydd i'r aelwydydd hyn i egluro'r dull o ddal a phrosesu eu data.

83. Dylid egluro hefyd, er y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch darparu safleoedd, ac y bydd o fantais i'r gymuned gyfan, nad yw'r Awdurdod Lleol yn ymrwymo i gyflawni'r holl ddyheadau sydd wedi'u mynegi yn yr arolwg. Weithiau bydd angen i'r Awdurdod Lleol gydbwysu 'anghenion' a 'dewisiadau' ac mae hyn yn cael ei drafod ymhellach ym mharagraff 166. Mae'n bwysig rhoi gwybod i randdeiliaid am gynnydd a chanlyniad yr asesiad. Drwy roi'r adborth hwn, bydd aelodau'r gymuned yn deall sut y mae eu barn wedi'i hystyried a bydd yn gwneud y broses yn fwy atebol.

84. Bydd methodoleg y GTAA wedi'i seilio ar y canllawiau hyn a'r broses brofi sydd wedi'i chrybwyll ym mharagraff 81 a bydd yn cynnwys tair prif elfen:

- dadansoddi'r ffynonellau data presennol;
- cynnal arolwg arbenigol;
- asesu anghenion llety.

Dadansoddi'r ffynonellau data presennol

85. Mae rhywfaint o wybodaeth gan Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill eisoes, a gellir ei defnyddio ar gyfer yr asesiad er y bydd angen cymryd gofal, am fod y boblogaeth dan sylw mor fach, i sicrhau na ellir ei defnyddio i adnabod unigolion.

Tabl 1 – Ffynonellau data eilaidd

<p>Cyfrifiad 2011</p>	<p>Roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys categori ethnigrwydd ar gyfer 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' am y tro cyntaf. Mae'r data yn awgrymu mai cyfanswm y boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru yw 2,785. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r nifer hwn yn cynnwys Siewmyn Teithiol na Theithwyr Newydd. Mae hefyd yn bosibl nad yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau eraill o'r cymunedau hyn sy'n amharod i ddatgan eu hethnigrwydd am eu bod yn ofni gwahaniaethu, am eu bod yn ymuniaethu'n gryfach â chategoriâu ethnigrwydd eraill (e.e. Gwyn Cymreig; Gwyn Gwyddelig) neu am resymau eraill er bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.</p> <p>Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi datgyfuno'r data hyn ar lefel yr Awdurdodau Lleol. Mae data ar gael hefyd i ddangos nifer yr aelwydydd sy'n byw ym mhob ardal ac ym mha fath o lety.</p>
<p>Cofnodion tai</p>	<p>Mewn ardaloedd lle mae Awdurdodau Lleol yn darparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, dylai gwybodaeth fod ar gael yng nghofnodion rheoli'r safleoedd. Gellir cael gwybodaeth ddefnyddiol ynddynt ynghylch trosiant lleiniau, rhestrau aros am leiniau a cheisiadau am aseinio lleiniau.</p> <p>Mae hefyd yn bosibl y bydd data gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig am Sipsiwn a Theithwyr sy'n breswylwyr neu sydd ar restrau aros. Mae'n bosibl y bydd staff Cefnogi Pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth a fydd yn helpu i adnabod aelodau o gymunedau i'w cyf-weld.</p> <p>Yn yr un modd â chofnodion tai a rhestrau aros eraill sydd gan Awdurdodau Lleol, gallai'r data hyn fod yn hen neu'n anghyflawn ac ni ellir cymryd bod yr aelwydydd a gofnodwyd yn nodweddiadol o'r gymuned gyfan o Sipsiwn a Theithwyr.</p>
<p>Cofnodion Cynllunio Awdurdodau Lleol</p>	<p>Bydd gwybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am safleoedd awdurdodedig preifat drwy'r broses ceisiadau cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys nifer y carafannau/leiniau a ganiatawyd ar bob safle, a roddwyd caniatâd cynllunio parhaol neu dros dro, ac a oedd yn cyfyngu meddiannaeth i unigolion a enwyd.</p> <p>Dylai Awdurdodau Lleol gasglu data hefyd am ddatblygiadau diawdurdod yn eu hardal. Bydd y rhain yn cynnwys nifer y carafannau neu leiniau ar bob safle, a cheisiadau cynllunio, apelau a/neu gamau gorfodi dros y 5 mlynedd blaenorol. Gallai'r data hyn fod yn hen neu'n anghyflawn. Er hynny, gellir eu defnyddio gyda gwybodaeth arall i ddangos a yw'r ddarpariaeth bresennol o safleoedd yn ddigonol a maint yr angen am safleoedd. Rhaid cyfeirio'n glir at gyfyngiadau'r data wrth ddefnyddio neu ddehongli'r ffigurau hyn.</p>

<p>Cyfrifiad Carafannau</p>	<p>Yn y gorffennol, mae'r Cyfrifiad Carafannau wedi rhoi ciplun chwemisol o'r sefyllfa o ran carafannau Sipsiwn a Theithwyr yn ardal yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, o wanwyn 2015 bydd y Cyfrifiad Carafannau'n cael ei droi'n log blwyddyn gyfan o wersylla diawdurdod ledled Cymru, yn ychwanegol i'r data arferol am safleoedd awdurdodedig a gesglir ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi data gwell o lawer i Awdurdodau Lleol am amllder, lleoliad, maint a math y safleoedd diawdurdod yn eu hardal ac yn eu helpu i gynllunio'n well i ddiwallu anghenion.</p> <p>Bydd yr Awdurdodau Lleol yn cynnwys nifer y carafannau ar bob math o safle, gan gynnwys safleoedd preifat neu gyhoeddus awdurdodedig a gwersylloedd neu ddatblygiadau diawdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r Cyfrifiad yn rhoi gwybodaeth am anghenion, dymuniadau, dyheadau nac incymau'r aelwydydd. Nid yw ychwaith yn cynnwys unrhyw Sipsi neu Deithiwr sy'n byw mewn tŷ. Er bod cyfyngiadau amlwg i'r data, gallant fod yn fan cychwyn i fapio'r cymunedau hyn.</p>
<p>Cofnodion addysg i Deithwyr</p>	<p>Mae hefyd yn bosibl bod ffynonellau data ychwanegol ar gael i Awdurdodau Lleol drwy ddarparwyr gwasanaethau fel y gwasanaeth iechyd a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr (TES), ynghylch poblogaethau lleol o Sipsiwn a Theithwyr. Bydd mesurau diogelu cyfrinachedd personol yn gymwys i'r ffynonellau hyn. Bydd gwybodaeth ar gael i'r TES am nifer y disgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a chofnodion eraill. Mae'n ymddangos bod nifer y Sipsiwn a Theithwyr yn y data hyn yn fwy nag yng Nghyfrifiad 2011.</p>
<p>Swyddogion cyswllt / Sefydliadau cymorth</p>	<p>Mae'n ddigon posibl y bydd gwybodaeth bersonol fwy manwl am y gymuned gan Swyddogion Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr a sefydliadau sy'n cynorthwyo'r cymunedau hyn, a dylai Awdurdodau Lleol neu bartneriaethau wneud defnydd ohoni wrth gynllunio a chynnal eu hasesiad (Atodiad 1).</p>
<p>Mae'n bwysig bod adrannau sy'n dod i gysylltiad yn gyson â Sipsiwn a Theithwyr yn ystyried cael eu cydsyniad i rannu data i'w defnyddio mewn asesiadau llety. Yn yr un modd â phob data personol, bydd yn rhaid cydymffurfio â Deddf Diogelu Data ac unrhyw ddeddfwriaeth ynghylch defnyddio mathau penodol o ddata wrth eu trosglwyddo.</p>	

86. Fodd bynnag, yn achos Sipsiwn a Theithwyr, mae'n debygol mai ychydig iawn o ddata eilaidd fydd ar gael. Er ein bod yn credu bod 76% o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr (data am Gymru a Lloegr o Gyfrifiad 2011) yn byw mewn tai confensiynol, nid yw cofnodion tai lleol yn debygol o ddangos pwy neu ymhle y mae'r bobl hyn. Yn aml, ni fydd categori ar wahân ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wrth fonitro ethnigrwydd ac, os bydd, mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai'n gallu bod yn amharod i arddel yr hunaniaeth hon. Mae'n bosibl nad yw cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn gwneud fawr o ddefnydd o restrau aros am dai yr Awdurdodau Lleol am nad oes fawr o alw gan Sipsiwn a Theithwyr am dai confensiynol. Gallai data defnyddiol fod ar gael mewn rhestrau aros Awdurdod Lleol sy'n caniatáu i aelwydydd nodi bod arnynt angen llain ar gyfer cartref symudol. Os nad

yw Awdurdodau Lleol yn cynnal rhestrau aros o'r fath ar hyn o bryd, bydd disgwyl iddynt newid eu polisiau i ddangos eu bod yn ceisio ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr (gweler Tabl 2 – Rhestr Wirio Ymgysylltu).

87. Ni ellir cymryd bod cofnodion sy'n cael eu dal gan ddarparwyr gwasanaethau eraill yn gynhwysfawr ychwaith, gan mai dim ond y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gaiff eu cofnodi, ac rydym yn gwybod nad yw Sipsiwn a Theithwyr yn gwneud defnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael mewn llawer achos, am nifer o resymau gwahanol¹.

88. Ni fydd y data sydd ar gael yn ddigon ar eu pen eu hunain i gynnal asesiad llety. Felly ni fydd asesiadau wedi'u seilio ar ddata sydd ar gael eisoes yn cael eu hystyried yn ddigon cynhwysfawr neu fanwl i gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Dim ond amcangyfrif o'r anghenion a geir o'r data hyn ac ni fyddant yn rhoi gwybodaeth benodol am anghenion a dewisiadau rhwng safleoedd a thai.

89. Bydd angen gwybodaeth fwy cyflawn i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu dynodi'n ddigonol. Er hynny, bydd adolygiad priodol o'r data eilaidd sydd ar gael yn rhoi sylfaen wybodaeth dda i ymchwilyr, gan gynnwys ffyrdd tebygol o adnabod aelodau o'r cymunedau. Felly rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal arolwg arbenigol i gael gwybodaeth ychwanegol a mwy manwl.

Cynnal arolwg arbenigol

90. Mae cynnal arolwg arbenigol o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o alw am ddefnyddio dull unigryw o asesu anghenion llety yn ardal yr Awdurdod Lleol. Er mwyn cael y data mwyaf cywir a dod i gasgliadau ar eu sail, bydd angen i Awdurdodau Lleol neu bartneriaethau gynnal asesiadau yn null cyfrifiad. Bydd angen i Awdurdodau Lleol nodi Sipsiwn a Theithwyr hysbys yn eu hardal a cheisio holi am anghenion llety pob aelwyd. Mae'n hanfodol bod y rheini sy'n cynnal yr asesiad yn ceisio cynnwys yr holl Sipsiwn a Theithwyr hysbys sy'n preswyllo neu'n ymgynnull yn yr ardal er mwyn sicrhau bod pawb yn ystyried bod yr asesiad yn ddilys a'i fod yn rhoi'r asesiad mwyaf cywir o anghenion sydd heb eu diwallu.

Pennu'r gymuned

91. Wrth gynllunio'r arolwg, rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried sut y byddant yn debygol o adnabod Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn gwahanol fathau o lety. Wrth gynnal arolygon, rhaid ceisio cyf-weld o leiaf un cynrychiolydd o bob aelwyd a pheidio a dibynnu ar ymateb gan un person ar bob safle. Mae hyn yn ofynnol am nifer o resymau, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir ac na fydd unigolion yn dod yn borthgeidwaid i'r gymuned gyfan neu'n camliwio anghenion llety pobl eraill.

92. Bydd data gorau'r Awdurdod Lleol yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd presennol yr Awdurdod Lleol. Mae'n debygol hefyd mai'r aelodau hyn o'r gymuned fydd y grŵp hawsaf ei adnabod a chysylltu ag ef. Mae hefyd yn bwysig ystyried anghenion llety yr aelwydydd cudd (neu ddwbl) sy'n rhannu lleiniau. Dylid asesu anghenion yr aelwyd gudd ar wahân i anghenion yr aelwyd sy'n denantiaid cydnabyddedig ar y llain neu yn y tŷ.

¹ Er enghraifft, The Race Equality Foundation / Zoe Matthews, 'The Health of Gypsies and Travellers in the UK' (2008)

93. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwybod am safleoedd awdurdodedig eraill drwy'r broses gynllunio neu wybodaeth leol. Ni ddylai fod yn fwy anodd cysylltu ag aelodau o'r cymunedau hyn, er ei bod yn bosibl y byddant yn fwy amheus o swyddogion yr Awdurdod Lleol os na chysylltwyd â nhw o'r blaen.

94. Mae Awdurdodau Lleol yn llai tebygol o fod â gwybodaeth gyflawn am aelodau o gymunedau sy'n byw mewn tai confensiynol. Bydd rhai Awdurdodau Lleol wedi sefydlu rhestrau aros penodol ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr neu byddant yn cofnodi ethnigrwydd ar eu rhestrau aros cyffredinol am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y data hyn yn anghyflawn hefyd. Dylai awdurdodau gydweithio â gweithwyr proffesiynol arbenigol (fel y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr, ymwelwyr iechyd arbenigol a swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr) a sefydliadau cymorth cymunedol (**Atodiad 1**), os ydynt yn berthnasol, i adnabod yr aelodau hyn o'r gymuned a'u hysbysu.

95. Gellir adnabod Sipsiwn a Theithwyr sydd mewn gweryslyoedd neu ddatblygiadau diawdurdod drwy'r Cyfrifiad Carafannau neu drwy fonitro gan yr Awdurdod Lleol, neu drwy achosion llys sy'n ymwneud â meddiant. Mae'n bosibl y bydd y rheini sydd mewn gweryslyoedd diawdurdod yn adnabyddus i'r Awdurdod Lleol fel ymwelwyr rheolaidd sydd efallai'n cael eu goddef, neu gallent fod yn llai adnabyddus ac yn fwy anodd eu hadnabod. Bydd yn bwysig iawn egluro i'r meddianwyr hyn fod arolwg y GTAA yn ceisio deall yr angen am leiniau preswyl a lleiniau tramwy. Hyd yn oed os bydd meddianwyr gweryslyoedd diawdurdod wedi gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg, dylid bod wedi cofnodi'r rheswm dros sefydlu'r gwerysly eisoes yn y log o werslyoedd diawdurdod yn y Cyfrifiad Carafannau a gellir ei gynnwys yn y GTAA drwy ddadansoddi'r ffynonellau data sydd ar gael.

96. Mae'n debygol o fod yn anodd iawn cael ymatebion gan feddianwyr datblygiadau diawdurdod. Y rheswm am hyn yw y gallai meddianwyr amau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn y datblygiad, yn hytrach nag i ddeall anghenion. Er mwyn delio â'r anhawster hwn, bydd o fantais i'r Awdurdod Lleol roi cadarnhad clir o'i fwriad a phwysleisio nad hynny yw pwrpas yr arolwg. Mewn llawer o achosion, bydd yn fwy effeithiol penodi canolwyr y mae'r gymuned yn ymddiried ynddynt i gynnal y cyfweiliadau hyn. Mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n aelodau o'r grŵp llywio'n debygol o wybod ble mae datblygiadau diawdurdod yn yr ardal a gallent gynnig awgrymiadau buddiol ynghylch sut i ymgysylltu â'r aelwydydd hyn.

97. Rhaid i ymchwilwyr gadw log o apwyntiadau a chyfweiliadau ag aelodau o gymunedau er mwyn gallu dangos bod ymgynghori eang wedi digwydd. Os bydd aelodau o gymunedau'n gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg, dylai ymchwilwyr gofnodi hyn a'r rhesymau dros beidio â chymryd rhan (os rhoddwyd y rhain). Dylai ymchwilwyr geisio dod i gysylltiad ag aelwydydd ar dri achlysur os nad ydynt wedi llwyddo o'r blaen. Dylent gofnodi dyddiad ac amser yr ymdrechion hyn yn y log cyfweiliadau a'r dull o geisio ymgysylltu â'r aelwyd (e.e. ei hysbysu ymlaen llaw am yr apwyntiad, ymweliad dirybudd, cael eu cyflwyno gan ganolwr y mae'r aelwyd yn ymddiried ynddo etc). Mae'r log cyfweiliadau yn Atodiad 3. Caiff Awdurdodau Lleol benderfynu addasu templed y log cyfweiliadau i'w ddefnyddio yn eu hardal. Fodd bynnag, dylid tynnu unrhyw ddata y gellir eu cysylltu â pherson penodol o'r fersiwn a gaiff ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

98. Mae'n bwysig bob amser fod Awdurdodau Lleol neu'r ymchwilwyr a benodir yn ceisio cynnwys cynifer o aelwydydd â phosibl yn yr arolwg arbenigol. Byddai hyn yn golygu bod un person o bob aelwyd o Sipsiwn a Theithwyr sy'n hysbys wedi cael ei gyf-weld neu wedi gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg y GTAA. Fodd bynnag, rydym yn derbyn ei bod yn annhebygol y bydd pob aelwyd yn cael ei chynnwys.

99. Rhaid i Awdurdodau Lleol allu dangos eu bod wedi dilyn y 'rhestr wirio ymgysylltu' isod i sicrhau eu bod wedi cyrraedd cynifer o aelwydydd â phosibl drwy broses y GTAA. Yn ogystal â hyn, dylid llenwi'r log cyfweliadau (**Atodiad 3**) i ddangos lle mae ymdrechion i gynnwys aelwydydd hysbys wedi methu. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwirio am gydymffurfiaeth â'r rhestr wirio wrth asesu'r GTAA a gyflwynwyd ar gyfer ei gymeradwyo. Os nad oedd yn bosibl cynnwys elfennau o'r rhestr wirio, dylid egluro hyn pan gaiff y GTAA ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Tabl 2 – Rhestr Wirio Ymgysylltu

1.	Ymweld â phob aelwyd o Sipsiwn neu Deithwyr a bennwyd drwy'r broses dadansoddi data hyd at 3 gwaith, os bydd angen.
2.	Cyhoeddi manylion proses y GTAA, gan gynnwys manylion cyswllt fel y gall aelodau o'r gymuned ofyn am gyfweiliad, ar wefan yr Awdurdod Lleol, ar wefan Travellers' Times ac yn y cyhoeddiad World's Fair.
3.	Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol, fel y rheini yn Atodiad 1.
4.	Datblygu rhestr aros Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau a thai a fydd yn agored i aelodau o'r gymuned ac y byddant yn cael eu hysbysu amdani.
5.	Ceisio cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yng ngrŵp llywio prosiect y GTAA.
6.	Sicrhau bod manylion cyswllt sy'n cael eu darparu i'r Awdurdod Lleol gan aelodau o'r gymuned drwy broses yr arolwg yn cael eu dilyn a bod anghenion yn cael eu hasesu.
7.	Ystyried cynnal digwyddiadau hysbysrwydd ar y GTAA ar safleoedd (neu gerllaw) i egluro pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan a chymell preswylwyr ar safleoedd i ddod â phobl eraill gyda nhw na fydd yr Awdurdod Lleol yn gwybod amdanynt o bosibl.

Anawsterau wrth gynnwys y gymuned

100. Hyd yn oed os yw'r gymuned leol o Sipsiwn a Theithwyr wedi'i phennu, mae'n bosibl y bydd anawsterau'n codi wrth gysylltu â'r gymuned er mwyn cynnal arolwg arbenigol i asesu anghenion llety. Efallai y bydd amharodrwydd i ddarparu gwybodaeth, neu amheuon ynghylch yr amcan o gasglu gwybodaeth. Mae'n bosibl y bydd rhai Sipsiwn a Theithwyr yn amharod i gydweithredu. Mae swyddogion a sefydliadau cymorth y mae'r gymuned yn ymddiried ynddynt, ynghyd â chynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr, yn gallu chwarae rhan bwysig drwy fraenaru'r tir, gan egluro pwrpas yr arolwg a chyflwyno ymchwilwyr.

101. Byddai aelodau o'r gymuned yn gallu cyfrannu hefyd drwy fapio'r gymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol neu'r bartneriaeth.

102. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried cynnal digwyddiadau i gynnwys y gymuned er mwyn sicrhau ei bod cael gwybod am yr aseiad llety ac yn deall ei natur a'i bwrpas. Dylid cynnal y digwyddiadau hyn mewn mannau lle y bydd y rhan fwyaf o aelodau'r gymuned leol yn gallu bod yn bresennol. Gallai hyn olygu defnyddio cyfleusterau cymunedol sydd ar safleoedd awdurdodedig neu gyfleusterau cymunedol cyfagos sy'n cael eu defnyddio gan y cymunedau

hyn. Bydd yn bwysig annog aelodau o'r gymuned i ddod â ffrindiau neu berthnasau sy'n byw y tu allan i'r safle a fyddai'n hoffi cael llain ar safle awdurdodedig. Os nad oes safle awdurdodedig o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu os yw'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yn fach, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol cynnal digwyddiadau i gynnwys y gymuned.

103. Dylai Awdurdodau Lleol gymell Sipsiwn a Theithwyr i gymryd rhan yn yr astudiaeth hefyd drwy wefannau sefydliadau cymorth cymunedol, drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyhoeddiadau cymunedol adnabyddus fel *Travellers' Times a World's Fair* (Siewmyn Teithiol yn unig).

104. Mae'n hollbwysig rhoi gwybod i aelodau o'r gymuned fod safleoedd ychwanegol yn annhebygol o gael eu darparu yn yr ardal os na fydd cynifer â phosibl o Sipsiwn a Theithwyr yn cymryd rhan. Os bydd Awdurdodau Lleol yn gallu dangos eu bod wedi mapio cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr yn drwyadl yn eu hardal a'u bod wedi bodloni meini prawf y rhestr wirio ymgysylltu, byddant yn fwy tebygol o allu amddiffyn cadernid eu GTAA mewn ymchwiliadau cynllunio. Os cymerir y camau hyn, bydd baich y cyfrifoldeb am gofrestru diddordeb mewn cael llain ar safle awdurdodedig yn cael ei ysgwyddo gan yr aelwydydd o Sipsiwn a Theithwyr eu hunain.

Rheoli disgwyliadau

105. Wrth gynnal yr arolwg, dylid pwysleisio wrth y rheini sy'n cymryd rhan mai pwrpas y gwaith hwn yw cael gwell dealltwriaeth o faint yr angen am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr y bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddelio ag ef, a'i helpu i ddatblygu strategaeth i gwrdd â'r angen. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad yn gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu llety i'r unigolion hynny sydd wedi'u cyf-weld yn ystod yr astudiaeth. Mae dyrannu'r lleiniau awdurdodedig sydd ar gael yn fater i'w benderfynu gan yr Awdurdod Lleol drwy ei swyddogaethau tai eraill. Er hynny, mae cwestiwn yn yr holiadur cyffredinol yn **Atodiad 2** sy'n rhoi cyfle i unigolion ofyn am gael eu cynnwys yn y rhestr aros leol am dai neu leiniau ar gyfer cartrefi symudol.

106. Nid yw'r Awdurdod Lleol wedi'i rwymo i ymdrin â'r holl anghenion sydd wedi'u nodi yn yr asesiad, nac i wneud hynny yn yr union ffordd y mae ymatebwyr yn datgan eu bod yn ei dewis. Mae'r ddyletswydd sy'n dilyn yr asesiad yn ymwneud â darparu lleiniau ar gyfer cartrefi symudol i gwrdd â'r angen a ddynodwyd. At hynny, lle mae'r Awdurdod Lleol yn dynodi dyhead neu ddewisiadau o ran llety, heb yr angen am leiniau, nid oes gofyniad i'r awdurdod gwrdd â'r anghenion hyn. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau bydd yr Awdurdod Lleol am wneud hynny beth bynnag – er enghraifft, er mwyn symud teuluoedd o Sipsiwn neu Deithwyr o dai cymdeithasol sydd yn eu meddiant wedi iddynt fynegi awydd i gael llain breswyl. Ni fydd bob amser yn hawdd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng dewisiadau ac anghenion ac rydym yn trafod hyn ymhellach ym **Pennod Tri** -.

107. Rydym yn annog cyfwelwyr i sicrhau bod y rheini sy'n cymryd rhan yn deall y materion hyn a hyd yn oed lle y dangosir bod angen a bod galw am safleoedd, gall gymryd blynyddoedd i'w datblygu.

Sensitifrwydd diwylliannol

108. Dylid ymchwilio'n fanwl i sensitifrwydd diwylliannol a'i ystyried wrth gynllunio'r arolwg. Rhaid bod yn ofalus wrth ystyried unrhyw newidiadau yng ngeiriad yr holiadur oherwydd sensitifrwydd diwylliannol. Y rheswm am hyn yw y byddai newidiadau'n gallu amharu ar y gallu i gymharu a defnyddio data'r arolwg yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn

argymell peidio â newid yr holiadur oni bai fod rheswm diwylliannol cryf dros wneud hynny. Dylid egluro unrhyw newidiadau wrth gyflwyno'r GTAA i Lywodraeth Cymru.

109. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ystyriaethau pwysig yn codi o ran sensitifrwydd diwylliannol wrth benderfynu sut i weinyddu'r arolwg. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen trafod rhyw'r cyfwelydd, amser y cyfweliad neu leoliad y cyfweliad gyda'r cymunedau eu hunain.

110. Gall rhai unigolion fod yn amharod i gymryd rhan oherwydd sensitifrwydd diwylliannol. Er enghraifft, gallai rhai menywod deimlo'n anghyfforddus o gael eu cyf-weld ar eu pen eu hunain yn eu cartref symudol gan ymchwilwyr gwrywaidd. Os bydd teuluoedd estynedig yn cael eu cyf-weld gyda'i gilydd, dylid rhoi cyfle i unigolion ymateb ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol os ydynt yn dymuno.

111. Gellir rhoi gormod o bwyslais ar sensitifrwydd diwylliannol. Er hynny, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried y posibilrwydd o dramgwyddo gan gyfwelwyr sydd heb fawr o ddealltwriaeth o'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw. Rydym yn argymell bod pob cyfwelydd yn cael ei hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr cyn cynnal unrhyw gyfweliadau.

112. Mae'n bwysig cydnabod y gall aelodau o nifer o gymunedau gwahanol gael eu cyf-weld ar gyfer yr arolwg, ac y bydd normau ac arferion diwylliannol y cymunedau hyn yn amrywio. Felly, wrth geisio deall sensitifrwydd bydd angen i ymchwilwyr ymgysylltu ag aelodau o bob cymuned neu'r sefydliad cymorth cymunedol mwyaf perthnasol.

113. Rydym hefyd yn argymell bod Awdurdodau Lleol yn ystyried darparu hyfforddiant i Aelodau Etholedig cyn cynnal y GTAA, yn enwedig i unrhyw Gynghorwyr sy'n gysylltiedig â'r grŵp llywio, Pwyllgor Cynllunio neu Bwyllgor a fydd yn craffu ar y GTAA.

Amseru'r arolwg

114. Rhaid ystyried amseriad yr arolwg yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn briodol. Dylid ystyried newidiadau tymhorol wrth benderfynu ar amseriad yr arolwg. Bydd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol neu bartneriaeth wybod rhywfaint am batrymau teithio'r boblogaeth leol o Sipsiwn a Theithwyr cyn gallu penderfynu. Er enghraifft, gallai fod yn haws cysylltu â Sipsiwn a Theithwyr lleol yn ystod y gaeaf os ydynt yn symud o gwmpas yn aml yn ystod yr haf. Ar y llaw arall, os ydynt yn dod o'r tu allan i'r ardal, bydd angen cynnal yr arolwg yn ystod yr haf er mwyn asesu eu hanghenion. Rhaid cofio hefyd y bydd rhai Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswyllo yn yr ardal fel arfer yn teithio y tu allan i'r ardal yn ystod yr haf. Bydd y Sipsiwn a Theithwyr a sefydliadau cymorth sy'n aelodau o grŵp llywio'r prosiect a'r rheini sy'n gweinyddu'r Cyfrifiad Carafannau'n gallu'ch cynghori ar hyn.

115. Os yw Awdurdodau Lleol cyfagos yn gwybod bod eu poblogaethau o Sipsiwn a Theithwyr yn symud yn rheolaidd ar draws ffiniau gweinyddol, rydym yn argymell eu bod yn ystyried cynnal GTAA ar lefel ranbarthol neu ar adeg a gytunir rhyngddynt er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gyfrif ddwywaith a phennu'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer safleoedd. Gall hyn hefyd olygu pennu'r safle mwyaf cynaliadwy o ran yr amgylchedd ar draws y rhanbarth.

Dulliau'r arolwg a dulliau ansoddol

116. Mae dulliau arolwg traddodiadol, fel anfon llythyrau i gyfeiriadau ar hap, yn annhebygol iawn o roi canlyniadau dibynadwy. Mae'n bosibl bod Sipsiwn a Theithwyr yn llai tebygol o ymateb i arolygon na grwpiau eraill. Rhai o'r rhesymau am hyn yw:

- a. eu bod yn symud yn aml neu yn ystod tymhorau penodol;
- b. gwahaniaethau diwylliannol sy'n golygu bod cwestiynau'n cael eu hystyried yn sensitif neu fod amheuan ynghylch y broses;
- c. lefelau llythrennedd is mewn rhai cymunedau.

117. Gan fod angen meithrin ymddiriedaeth a sicrhau bod cynifer â phosibl yn cymryd rhan, mae arolwg drwy gyfweiliadau'n fwy priodol gan ei fod fel arfer yn arwain at gyfraddau ymateb uwch o lawer a data mwy dibynadwy o'r cymunedau hyn.

118. Os oes modd, bydd o fantais cyf-weld yr un nifer o fenywod ag o ddynion. Gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau i geisio cymell mwy o ddynion i gymryd rhan, gan y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio y tu allan i'r safle yn ystod y dydd pan fydd nifer o ymchwilyr am ymweld. Dwy ffordd bosibl o'u cynnwys yw cynnal digwyddiadau un diwrnod i gynnwys y gymuned mewn mannau cyfleus neu geisio trefnu apwyntiadau i'w cyf-weld. Gellir ceisio cysylltu nifer o weithiau drwy drefnu i ddychwelyd i'r safle gyda'r hwyr. Byddai apwyntiad ar ddechrau'r noson yn gallu bod yr un mor anghyfleus os oes plant ifanc yn y teulu sy'n mynd i'r gwely yr un pryd bob nos. Mae aelodau o gymunedau wedi dweud mai apwyntiadau rhwng y bore hwyr a dechrau'r prynhawn yw'r mwyaf effeithiol yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd anghenion pawb yn wahanol.

119. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried hefyd yr hawl sydd gan blant a phobl ifanc i'w llais gael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r hawl hon wedi'i datgan yn erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Gall barn plant a phobl ifanc am eu dyheadau fod yn wahanol iawn i farn eu rhieni. Dylai ymchwilyr geisio cynnwys ymatebion i'r arolwg gan bobl ifanc lle bo modd. Er enghraifft, mae Adran D o'r holiadur yn holi am dwf y teulu a gall barn pobl ifanc am eu cynlluniau fod yn wahanol i farn eu rhieni. Drwy ddarparu safleoedd ar ddiwedd y broses i gwrdd ag anghenion aelwydydd o Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol, bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn gwireddu hawl pobl ifanc i gael safon byw dda (erthygl 27) a'u hawl i ddilyn eu diwylliant (erthygl 30).

120. Bydd y data a gofnodir yn fwy cywir o sicrhau cyfweiliadau â chynifer o aelodau'r gymuned â phosibl. Mewn geiriau eraill, po fwyaf o aelodau'r gymuned a gyfwelir, mwyaf cynrychiadol fydd y data o'r boblogaeth gyfan o Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal.

Cwestiynau'r arolwg

121. Mae'r holiadur cyffredinol newydd, sydd wedi'i lunio ar batrwm asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr llwyddiannus yn y gorffennol, yn **Atodiad 2** i'r canllawiau hyn. Mae pum rhan i'r holiadur a fydd yn casglu'r holl ddata perthnasol sydd eu hangen i helpu Awdurdodau Lleol i asesu anghenion.

122. Y bwriad yw y bydd cyfwelwyr yn llenwi'r holiadur ei hun yn ystod sgwrs wyneb yn wyneb ag aelod o bob aelwyd yn ardal yr Awdurdod Lleol. Drwy'r broses hon, gellir osgoi'r posibilrwydd o orfod delio â phroblemau anllythrennedd a sicrhau bod mwy'n cymryd rhan nag a fyddai'n ymateb i ymgyrch bostio, yn ogystal â chael cyfle i egluro geiriau neu gwestiynau sydd wedi'u camddeall.

- 123.** Mae Adran A yn holi aelodau o'r gymuned am eu trefniadau llety presennol. Drwy ddadansoddi'r ymatebion i'r adran hon, bydd Awdurdodau Lleol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i ddeall natur y cyflenwad presennol o lety. Er enghraifft, er y bydd y dadansoddiad o'r data eilaidd sydd ar gael yn dangos nifer y lleiniau awdurdodedig sydd yn ardal yr Awdurdod Lleol, bydd yr atebion i Adran A yn dangos pa mor fodlon yw aelodau'r gymuned ar eu hamgylchiadau presennol. Gallai helpu Awdurdodau Lleol i adnabod yr angen am adnewyddu safleoedd neu wneud addasiadau mewn cartrefi. Mae'n bosibl y gellir defnyddio grantiau fel y Grant Cyfalaf Safleoedd a Grant Cyfleusterau i'r Anabl i hwyluso'r broses hon. Gallai fod yn bosibl hefyd nodi unrhyw ddiffygion yn arferion rheoli'r safleoedd.
- 124.** Mae Adran B yn holi am strwythur teuluol yr aelwyd, gan gynnwys oed, rhywedd, ethnigrwydd ac unrhyw anghenion ychwanegol.
- 125.** Nid yw'r golofn ethnigrwydd i'w defnyddio i gofnodi unrhyw ddiffiniadau parod o 'Sipsi' neu 'Teithiwr Gwyddelig' etc. Yn hytrach, dylid defnyddio'r golofn hon i alluogi'r rhai a gyfwelir i ddisgrifio eu hunaniaeth eu hunain. Yr amcan yma yw tynnu sylw'r Awdurdod Lleol at wahanol grwpiau diwylliannol neu ethnig yn ei boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr oherwydd gallai hyn fod yn berthnasol wrth bennu maint a threfniant unrhyw safleoedd a ddatblygir yn y pen draw.
- 126.** Mae'r golofn olaf yn nhabl Adran B yn rhoi cyfle i aelwydydd nodi unrhyw beth y credant fod angen i'r Awdurdod Lleol ei wybod ynghylch pam na allant barhau i feddiannu eu llety presennol. Gallai hyn fod yn wrthwynebiad diwylliannol i fath penodol o lety neu faterion eraill y teimlant fod angen eu hystyried.
- 127.** Bydd cwestiynau B2 a B3 hefyd yn helpu Awdurdodau Lleol i wybod a yw'n debygol bod y llety wedi'i orlenwi. Mae rhagor o wybodaeth am orlenwi ar safleoedd cartrefi symudol yn yr adran Gorlenwi safleoedd isod.
- 128.** Mae cwestiwn B4 yn rhoi cyfle i aelodau'r gymuned ofyn am becyn cais i gael lle ar restr aros yr Awdurdod Lleol am dai confensiynol neu leiniau ar gyfer cartrefi symudol.
- 129.** Mae Adran C yn holi am ddyheadau a chynlluniau ynghylch llety. Bydd y wybodaeth a gesglir yn yr adran hon yn helpu Awdurdodau Lleol i ystyried a fydd yn ymarferol cydweithio ag unigolion i ddatblygu safleoedd preifat ac asesu'r dyheadau am lety sydd gan aelwydydd sydd am symud.
- 130.** Bydd cwestiynau C3, C4 a C6 yn helpu Awdurdodau Lleol i ystyried pa fath o lety y mae'n debygol y bydd galw amdano i gwrdd ag anghenion yr aelwyd dan sylw.
- 131.** Bydd cwestiynau C2 a C7 (yn ogystal â rhai cwestiynau yn Adran D) yn helpu Awdurdodau Lleol i asesu a yw'n debygol y bydd angen diwallu anghenion am leiniau ar gyfer cartrefi symudol yn ardal yr Awdurdod Lleol lle mae'r aelwyd yn preswyllo ar hyn o bryd neu a ellir eu darparu yn ardal Awdurdod Lleol arall. Os bydd atebion i'r cwestiynau hyn yn awgrymu y gellir cwrdd â'r angen yn ardaloedd awdurdodau eraill, byddai'r Awdurdod Lleol sy'n cynnal yr arolwg yn gallu trafod y posibilrwydd o drosglwyddo'r angen ag Awdurdod Lleol arall. Fodd bynnag, byddai'r angen sydd heb ei ddiwallu yn aros gyda'r awdurdod lle mae'r aelwyd yn preswyllo ar hyn o bryd os bydd yr awdurdod arall yn gwrthod derbyn yr angen sydd heb ei ddiwallu.
- 132.** Mae cwestiwn C5 yn rhoi cyfle i aelodau'r gymuned gofrestru eu bwriad i ddatblygu safle preifat yn yr ardal. Mae'r cwestiwn yn caniatáu i aelodau'r gymuned ofyn am drafodaeth â'r Awdurdod Lleol, a fyddai'n rhoi cyfle i'r awdurdod asesu dichonoldeb y cynlluniau i ddatblygu safleoedd. Os na fydd yr aelod o'r gymuned yn darparu ei fanylion cyswllt, bydd yn anodd i'r Awdurdod Lleol asesu hyfywedd y cynlluniau ar gyfer safleoedd preifat.

133. Bydd Adran D yn helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer y twf mewn teuluoedd a ragwelir a'r anghenion a fydd yn codi o aelwydydd newydd yn y 5 mlynedd nesaf. Bydd cwestiynau D1 – D3 yn helpu'r Awdurdod Lleol i ddeall y galw a geir yn y dyfodol am lety preswyl oddi wrth yr aelwydydd presennol.

134. Mae cwestiynau D4 a D5 yn rhoi cyfle i aelodau'r gymuned hysbysu'r Awdurdod Lleol am aelwydydd sy'n byw yn ardal Awdurdodau Lleol eraill sydd am breswyllo yn yr un ardal Awdurdod Lleol â'u teulu. Os bydd aelodau o'r gymuned yn darparu manylion aelodau o'u teulu sy'n byw mewn mannau eraill, dylai'r Awdurdod Lleol gysylltu â nhw i gynnal arolwg arall â'r aelwyd ychwanegol. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae dyletsywydd ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion y rheini sy'n preswyllo neu'n ymgynnull yn eu hardal. Felly, mae cwestiynau D4 a D5 yn ffordd o asesu anghenion y rheini sy'n ymgynnull yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod gofyniad i Awdurdodau Lleol asesu anghenion y teuluoedd estynedig i aelwydydd sy'n preswyllo yn eu hardal. Y maen prawf ar gyfer penderfynu a ddylai'r Awdurdod Lleol asesu anghenion yw a yw'r aelwyd yn treulio cyfnodau'n rheolaidd yn byw ar safleoedd (awdurdodedig a diawdurdod) yn ardal yr Awdurdod Lleol.

135. Os bydd awydd am leiniau'n codi o'r tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod sy'n cynnal y GTAA yn dymuno trafod yr amgylchiadau a'r posibilrwydd o drosglwyddo anghenion gyda'r Awdurdod Lleol lle mae'r aelwyd yn preswyllo ar hyn o bryd. Dylid gofyn i'r aelwyd am gydsyniad i gynnal y trafodaethau hyn a dylai'r Awdurdod Lleol ystyried dyroddi hysbysiad preifatrwydd.

136. Yn olaf, mae Adran E yn ymdrin â'r angen am ddarparu safleoedd tramwy yn yr ardal ac yn ardal Awdurdodau Lleol eraill. Drwy ddadansoddi'r ymatebion i'r adran hon, bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu deall a oes angen am lety ar safleoedd tramwy yn yr ardal.

137. Mae Adrannau A – D o'r holiadur yn ymwneud yn bennaf â'r angen am leiniau preswyl yn ardal yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal yr arolwg. Fodd bynnag, mae Adran E yn gofyn am wybodaeth ar lefel ddaearyddol ehangach. Y rheswm am hyn yw bod anghenion am safleoedd tramwy yn fwy tebygol o gael eu datrys ar lefel ranbarthol er mwyn sicrhau bod safleoedd yn ariannol hyfyw. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r aelwydydd a gyfwelir gan yr Awdurdod Lleol yn debygol o fod yn breswylwyr lleol, felly byddant yn fwy tebygol o deithio yn ardal Awdurdodau Lleol eraill ac felly'n ymddiddori'n fwy mewn safleoedd tramwy yn yr ardaloedd hynny.

138. Bydd yn hanfodol bod yr atebion i gwestiynau yn Adran E yn cael eu rhannu â'r Awdurdodau Lleol y mae aelodau o'r gymuned yn eu henwi er mwyn sicrhau bod yr anghenion am safleoedd tramwy'n cael eu mesur yn iawn yn yr ardaloedd hynny. Yn benodol, mae'r atebion i gwestiynau E2, E3 ac E5 yn debygol o fod yn ddefnyddiol i awdurdodau eraill. Nid oes angen cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol sensitif yn y data a rennir gan na fydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu priodoli i aelwyd benodol.

139. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu, drwy'r grŵp llywio, ei fod am gynnwys cwestiynau eraill sy'n ymwneud ag anghenion llety, dylai gynnwys y rhain mewn Adran F yn yr holiadur. Wrth ystyried a fydd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol, dylai'r Awdurdod Lleol gydbwysu'r awydd i gael gwybodaeth ychwanegol a'r amser y bydd ymchwilwyr yn ei gymryd i gynnal yr arolwg a defnyddioldeb y data a gesglir. Po hiraf fydd y cyfweiliad, mwyaf fydd y perygl i gyfranogwyr roi atebion, o fwriad neu fel arall, a fydd yn eu barn nhw'n cyd-fynd â disgwyliadau'r cyfwelydd. Dylid datblygu holiaduron drwy ymgynghori â chynrychiolwyr y cymunedau lleol o Sipsiwn a Theithwyr, gan mai'r rhain fydd yn fwyaf effeithiol. Gellir cynnwys cymysgedd o gwestiynau caeedig gyda blwch ticio a chwestiynau mwy penagored sy'n cymell ymatebwyr i ymhelaethu ar eu hatebion. Dylid cynnwys unrhyw gwestiynau ychwanegol wrth gyflwyno'r GTAA i Lywodraeth Cymru.

Pennod Tri: Asesu Anghenion Llety

140. Ar ôl cynnal y cyfweiliadau ac adolygu'r data, bydd angen i Awdurdodau Lleol asesu'r angen am ddarparu lleiniau ychwanegol ar gyfer cartrefi symudol.

141. Ar sail canlyniadau'r asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) dylai fod yn bosibl pennu nifer yr aelwydydd o Sipsiwn neu Deithwyr sydd ag angen lleiniau ychwanegol ar unwaith, o fewn 5 mlynedd, ac yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu. Bydd hyn yn cynnwys:

- y mathau o lety sy'n ofynnol i gwrdd â'r angen (h.y. safleoedd preswyl neu dramwy, safleoedd penodol ar gyfer Siewmyn Teithiol neu Sipsiwn Romani/Teithwyr Gwyddelig etc);
- nifer yr aelwydydd sydd eisoes yn preswyl yn ardal yr Awdurdod Lleol mewn llety anaddas (h.y. wedi'i orlenwi, yn byw mewn tai confensiynol gan wrthwynebu hynny etc);
- nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn datblygiadau diawdurdod neu ar safleoedd awdurdodedig sydd â chaniatâd dros dro, sy'n debygol o greu mwy o anghenion sydd heb eu diwallu os na roddir caniatâd cynllunio;
- y gyfradd debygol net ar gyfer ffurfio aelwydydd (h.y. oedolion ifanc sydd ag angen eu lleiniau eu hunain, mudo a chwalu aelwydydd etc);
- nifer yr aelwydydd sydd â chyfle gwirioneddol i symud i fath o lety o'u dewis, a allai ryddhau lleiniau gwag neu le mewn tai confensiynol.

142. Yn y bennod hon, byddwn yn disgrifio'r broses o ddefnyddio'r data a gesglir drwy adolygu ffynonellau data a'r arolwg arbenigol. Rhoddir canllawiau ar asesu anghenion a dewisiadau, y galw am lety yn yr ardal dan sylw ac mewn ardaloedd eraill, sut i rag-weld y gyfradd net ar gyfer ffurfio aelwydydd, a sut i gyfrifo'r ffigur hanfodol terfynol sy'n dangos yr angen am leiniau.

143. Drwy gynnal yr arolwg arbenigol, gall Awdurdodau Lleol ddod i wybod am yr angen neu'r galw am leiniau preswyl, lleiniau tramwy neu dai confensiynol. Mae dyletswyddau Awdurdodau Lleol o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ymwneud â'r gofyniad i ddarparu lleiniau ar gyfer cartrefi symudol yn unig, yn hytrach nag unrhyw fath arall o lety. Felly, dylid ystyried unrhyw angen sy'n codi am dai confensiynol drwy'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'i gynnwys wedyn yn y strategaeth dai leol os bydd yr Awdurdod Lleol yn ei datblygu.

Y cyflenwad presennol o leiniau preswyl

144. Cyn ystyried y galw am leiniau ychwanegol yn ei ardal, bydd yn bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn edrych ar y cyflenwad presennol o leiniau preswyl. Gwneir hyn yn bennaf drwy gasglu data ar sail gwybodaeth am safleoedd awdurdodedig sy'n cael ei chadw gan adrannau tai a chynllunio'r Awdurdod Lleol. Bydd nifer y lleiniau sydd wedi'u meddiannu ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat awdurdodedig yn cael ei ddangos yn rhesi A a B yn **Tabl 3 – Amcangyfrif yr angen am leiniau preswyl ar safleoedd**.

145. Dylid cofnodi nifer y lleiniau sydd wedi'u meddiannu ar safleoedd Awdurdod Lleol yn rhes A. Mae'r data hyn ar gael yn system y Cyfrifiad Carafannau ac yng nghofnodion tai'r Awdurdod Lleol. Ni ddylid cynnwys lleiniau gwag gan y bydd y rhain yn cael eu cofnodi wedyn yn rhes C. Dylid cofnodi nifer y lleiniau sydd wedi'u meddiannu ar safleoedd

preifat awdurdodedig yn rhes B. Bydd y data hyn ar gael drwy lenwi arolygon safle gyda meddianwyr. Mae'n bosibl y bydd perchnogion rhai safleoedd preifat yn gwrthod caniatáu i gyfwelwyr ddod ar y safle, fel na fydd modd pennu'r holl leiniau gwag posibl yn y GTAA. Os bydd hyn yn digwydd, dylid cymryd bod pob llain ar y safle wedi'i meddiannu.

146. Ni ddylai Awdurdodau Lleol gynnwys aelwydydd ar safleoedd 'a oddefir' yn y cyflenwad presennol o leiniau preswyl oni bai fod sicrwydd wedi'i roi na chymerir camau gorfodi yn erbyn y safle yn y cyfnod dilynol o 5 mlynedd.

147. Yn yr un modd, os mai caniatâd cynllunio dros dro'n unig a roddwyd i safleoedd awdurdodedig a'u bod i gau o fewn cyfnod 5 mlynedd y GTAA, bydd yr aelwydydd ar y safleoedd hyn yn cael eu cyfrif yn rhan o'r galw o dan res F neu G, yn hytrach nag yn y cyflenwad o leiniau.

148. Ar ôl pennu cyfanswm y lleiniau awdurdodedig sydd wedi'u meddiannu, dylai Awdurdodau Lleol ystyried y cyflenwad arfaethedig o leiniau ychwanegol.

Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl

149. Dylai'r Awdurdod Lleol geisio pennu nifer y lleiniau gwag presennol ar safleoedd awdurdodedig i'w gofnodi yn rhes C. Bydd nifer y lleiniau gwag ar safleoedd Awdurdod Lleol ar gael yn system y Cyfrifiad Carafannau ac yng nghofnodion tai'r Awdurdod Lleol. Dylai'r ffynhonnell data ar gyfer pennu nifer y lleiniau gwag fod yn gyson â'r ffynhonnell data ar gyfer pennu nifer y lleiniau sydd wedi'u meddiannu yn rhes A.

150. Bydd angen cysylltu â pherchenogion safleoedd er mwyn cael gwybod am nifer y lleiniau gwag ar safleoedd preifat awdurdodedig. Mae'n bosibl na fydd rhai perchenogion safle am lesio lleiniau gwag i rai nad ydynt yn aelodau o'u teulu. Er hynny, mewn amgylchiadau o'r fath bydd y lleiniau gwag yn cael eu lesio i aelodau o'r teulu yn y pen draw a bydd hyn yn helpu i gwrdd â'r angen am leiniau sydd heb ei ddiwallu. Dylid cofnodi nifer y lleiniau gwag ar safleoedd preifat hefyd yn rhes C.

151. Er mwyn pennu nifer y lleiniau awdurdodedig y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos, dylai'r Awdurdod Lleol adolygu ei gofnodion rheoli safleoedd i fesur y trosiant blynyddol o leiniau dros gyfnod o 5 mlynedd. Dylid cofnodi'r trosiant cyfartalog o leiniau mewn un flwyddyn yn rhes D.

152. Yn ogystal â hyn, dylai'r Awdurdod Lleol adolygu'r atebion i gwestiynau A6-7 ac Adran C yn yr arolwg. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn debygol o ddangos dyheadau optimistaidd gan aelwydydd sy'n bwriadu symud. Gall yr Awdurdod Lleol weld pa atebion sydd wedi'u rhoi gan aelwydydd sy'n meddiannu lleiniau awdurdodedig ar hyn o bryd drwy gyfeirio at atebion i gwestiwn A1. Gall Awdurdodau Lleol ystyried y wybodaeth hon er mwyn canfod a oes modd cytuno i wireddu unrhyw ddyheadau.

153. Wrth ystyried y rheini sy'n debygol o adael lleiniau ar safleoedd awdurdodedig yn y dyfodol agos, mae'n bosibl y bydd atebion i'r arolwg yn dangos bod rhai aelwydydd wedi mynegi awydd i symud i dai confensiynol. Os bydd yr Awdurdod Lleol am gynnwys y lleiniau sy'n cael eu meddiannu gan yr aelwydydd hyn ar hyn o bryd gyda'r rheini sy'n debygol o ddod yn wag yn y dyfodol agos, rhaid iddo ddangos y bydd yr aelwyd yn sicr o gael llety arall. Os gellir dangos hyn, gellir cynnwys y lleiniau hyn yn rhes D.

154. Bydd y graddau y mae aelwydydd yn fodlon ar eu llety presennol yn rhoi awgrym o ba mor debygol yw hi y byddant yn aros yn eu llety presennol. Efallai y bydd unigolion wedi dweud y byddent yn dewis gadael llety mewn cartref symudol a symud i dŷ

confensiynol neu y byddent yn dewis neu'n teimlo angen diwylliannol i adael tŷ confensiynol er mwyn preswyllo mewn cartref symudol.

155. Wrth holi am fodlonrwydd aelwydydd ar eu llety presennol (cwestiynau A2 ac A7), mae'n bosibl y byddant wedi dweud ei bod yn well ganddynt gael gwelliannau neu addasiadau i'w llety presennol yn hytrach na symud. Gellir helpu'r rheini sy'n mynegi awydd i symud o'u llety i gadw eu llety presennol drwy dderbyn y Grant Cyfleusterau i'r Anabl neu'r Grant Cefnogi Pobl.

156. Gallai aelwydydd fod am symud oherwydd amwynder cyffredinol y safle a materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Os felly, mae'n bosibl y bydd Awdurdodau Lleol yn gymwys i ddefnyddio Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i adnewyddu eu safleoedd.

157. Yn ogystal ag asesu nifer y lleiniau awdurdodedig presennol, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried nifer y lleiniau ychwanegol y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer y disgwylir iddynt fod ar gael. Bydd hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd preifat a safleoedd Awdurdod Lleol, os bydd y rhain ar gael i'w rhentu. Dylid cynnwys y lleiniau ychwanegol hyn yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl yn rhes E.

158. Dim ond safleoedd y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer a ddylai gael eu cynnwys ar yr adeg hon. Ni ddylid cynnwys safleoedd sy'n cael eu hystyried drwy'r broses gynllunio ond sydd heb gael caniatâd cynllunio eto. Y rheswm am hyn yw nad oes sicrwydd y bydd y safle ar gael nes rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer a byddai cynnwys safleoedd y methwyd â chael caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn arwain at amcangyfrif rhy isel o'r angen nas diwallwyd yn yr ardal. Fodd bynnag, os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer safle ar ôl cyhoeddi'r GTAA, bydd nifer y lleiniau a gymeradwywyd yn cael ei osod yn erbyn yr angen nas diwallwyd sydd wedi'i ddynodi.

159. Gellir cyfrifo'r cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl drwy adio:

- a. nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ar hyn o bryd (rhes C);
- b. nifer y lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos (rhes D);
- c. nifer y lleiniau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer sydd heb gael eu datblygu neu eu meddiannu eto (rhes E).

160. Dylid rhoi'r cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl yn rhes P yn Nhabl 3.

Y galw presennol am ddarpariaeth breswyl

161. Byddwch yn cyfrifo'r galw presennol am ddarpariaeth breswyl drwy amcangyfrif anghenion y Sipsiwn a Theithwyr a holwyd yn yr arolwg arbenigol a defnyddio ffynonellau data eraill sy'n berthnasol. Bydd ymchwilwyr wedi casglu gwybodaeth am ddyheadau aelwydydd am lety drwy'r arolwg a bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddadansoddi'r data hyn i amcangyfrif yr anghenion tebygol.

162. Cyn dechrau'r broses hon, mae'n bwysig nodi na fydd yr amcangyfrif o anghenion yn cymryd lle neu'n mynd yn groes i ddyletswyddau'r Awdurdod Lleol o dan ddeddfwriaeth ar Ddigartrefedd a deddfwriaeth arall ar Dai. Ni fydd yr amcangyfrif o anghenion yn ymwneud yn uniongyrchol ag aelwydydd penodol sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg a'i unig bwrpas yw cynnig darlun cyffredinol o'r anghenion tebygol y mae'n rhaid cynllunio ar eu cyfer. Ar ôl pennu'r anghenion, gall yr Awdurdod Lleol wneud aseidiadau manwl drwy ei bolisiau presennol ar Ddigartrefedd a Dyrannu Tai i ganfod pwy a fydd yn gymwys i dderbyn cymorth a dyrannu lleiniau iddynt.

163. Mae'n hollbwysig bod hyn yn cael ei gyfleu i Sipsiwn a Theithwyr sy'n cymryd rhan yn yr arolwg er mwyn sicrhau na fyddant o dan yr argraff y bydd eu dyheadau'n cael eu gwireddu'n uniongyrchol drwy'r broses hon.

164. Er mwyn cyfrifo lefel y galw presennol am ddarpariaeth breswyl, bydd angen i'r Awdurdod Lleol asesu'r rheini sydd:

- a. mewn gwerysilloedd diawdurdod sydd ag angen tebygol am lety ar safle;
- b. mewn datblygiadau diawdurdod na roddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer;
- c. ar safleoedd presennol mewn llety sydd wedi'i orlenwi;
- d. mewn tai confensiynol sydd wedi'u gorlenwi neu lle mae ganddynt wrthwynebiad diwylliannol; ac
- e. aelwydydd newydd y mae disgwyl iddynt gyrraedd yr ardal.

165. Bydd y data a gesglir drwy adrannau A, C a D yn yr holiadur yn helpu Awdurdodau Lleol i ystyried y galw sy'n debygol o godi o'r ffynonellau hyn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol wahaniaethu hefyd rhwng anghenion llety a dewisiadau / dyheadau o ran llety.

Deall 'Anghenion' a 'Dewisiadau'

166. Yn aml nid yw Sipsiwn a Theithwyr wedi gallu cael lle ar safleoedd diwylliannol briodol yn yr ardaloedd lle maent am fyw. Mewn rhai achosion, mae'r ffyrdd gwahanol sydd gan Awdurdodau Lleol o ddarparu safleoedd a chymryd camau gorfodi yn erbyn gwerysilloedd wedi dylanwadu ar leoliad cymunedau. Lle mae hyn wedi digwydd, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol dros yr ardal lle mae'r anghenion mwyaf ar hyn o bryd yn gweld bod angen cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth i ddod o hyd i ateb ar y cyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd Awdurdodau Lleol lle mae lefel yr anghenion yn isel yn derbyn y bydd yn rhaid iddynt wneud mwy o gyfraniad at ddiwallu anghenion y rhanbarth.

167. Mae'r safleoedd awdurdodedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws Cymru. Mae'r dosbarthiad hwn yn ganlyniad i ryw raddau i'r dewis gan aelodau o'r gymuned i fyw mewn ardaloedd penodol am resymau teuluol, economaidd neu ddiwylliannol. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir nad oes safleoedd mewn rhai ardaloedd am fod eu polisiâu gorfodi'n fwy llym ac am eu bod yn gwrthod darparu safleoedd lle mae eu hangen. Mae hyn yn debygol iawn o fod wedi digwydd ar ôl diddymu'r ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

168. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl bod cysylltiadau hirsefydlog ag ardaloedd cyfagos gan rheini sy'n byw ar safleoedd mewn rhai ardaloedd. Yn yr un modd, gellir cael ardaloedd sydd heb safleoedd lle mae nifer sylweddol o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai confensiynol yn yr ardal.

169. Felly mae'n debygol y bydd Awdurdodau Tai Lleol yn dod ar draws nifer o sefyllfaoedd wrth gynnal eu harolwg lle y gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng anghenion a dewisiadau'r meddianwyr.

170. Wrth wahaniaethu rhwng anghenion a dewisiadau, mae'n debygol y byddant yn canolbwyntio ar dair thema:

- a. aelodau o'r gymuned sy'n byw mewn tai confensiynol sy'n honni bod ganddynt angen am leiniau ar gyfer cartrefi symudol oherwydd gwrthwynebiad diwylliannol;
- b. aelodau o'r gymuned sy'n honni bod ganddynt angen am leiniau ar gyfer cartrefi symudol yn ardal Awdurdod Lleol gwahanol i'r un sy'n cynnal yr asesiad;
- c. y rheini sy'n byw ar safleoedd diawdurdod sy'n honni bod ganddynt angen am leiniau ar gyfer cartrefi symudol yn ardal yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal yr asesiad.

Deall y Gwrthwynebiad Diwylliannol

171. I lawer o Sipsiwn a Theithwyr, mae byw mewn cartref symudol yn agwedd allweddol ar eu hunaniaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, roedd Cyfrifiad 2011 yn awgrymu mai dim ond 24% o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n byw mewn carafannau neu adeiladweithiau dros dro eraill. Roedd y Cyfrifiad hefyd yn awgrymu bod bron 76% o'r cymunedau hyn yn byw ar hyn o bryd mewn tai, fflatiau a byngalos yng Nghymru a Lloegr.

172. Mae nifer o'r rheini sy'n byw mewn tai, fflatiau neu fyngalos yn gwneud hynny o ddewis ac am nifer o resymau gwahanol. Fodd bynnag, credir hefyd fod lleiafrif sylweddol o'r boblogaeth hon wedi symud i dai confensiynol am nad oes lleiniau cyfreithlon ar gael ar gyfer cartrefi symudol yn lle hynny.²

173. Ymysg yr aelodau o gymunedau sy'n byw mewn tai confensiynol, mae'n debygol bod rhai sy'n profi'r hyn a elwir yn 'wrthwynebiad diwylliannol' i lety o'r math hwn.³ Hynny yw, aelodau o gymunedau sydd wedi dilyn traddodiad o fyw mewn cartref symudol neu ar safleoedd ac sy'n ei chael yn anodd ymaddasu i fyw mewn llety confensiynol.

174. Gellir meithrin gwrthwynebiad diwylliannol drwy fethu ag ymaddasu i fath newydd o lety neu ffordd fwy sefydlog o fyw neu drwy fod ar wahân i gymuned ac aelodau o'r teulu wrth fyw mewn tai confensiynol.

175. Bydd angen i Awdurdodau Tai Lleol ystyried yn ofalus a yw'r rheini a gyfwelwyd a nododd y byddai'n well ganddynt fyw ar safle cartrefi symudol yn rhai y gellid dweud hefyd fod ganddynt wrthwynebiad diwylliannol i barhau i fyw mewn tai confensiynol. Wrth ystyried hyn, dylid rhoi sylw i:

- a. traddodiad diwylliannol yr aelwyd o fyw mewn cartref symudol;
- b. y rheswm dros symud i dai confensiynol;
- c. y tebygolrwydd o niwed i'r unigolyn os bydd yn parhau i fyw mewn tai confensiynol;
- d. y gyfraith achosion sy'n datblygu ynghylch gwrthwynebiad diwylliannol.

176. Wrth gynnal yr asesiad llety, ni fyddai'n briodol i'r Awdurdod Lleol fynnu bod y rhai a gyfwelir yn dangos bod ganddynt wrthwynebiad drwy unrhyw fath o asesiad meddygol neu seiciatryddol. Pwrpas y broses asesu yw cael amcangyfrif bras o'r angen cyffredinol am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr sy'n debygol o godi yn yr ardal, yn hytrach na'r angen sydd gan unigolion penodol.

² Shelter, 'Good Practice Guide: Working with housed Gypsies and Travellers' (2008)

³ Wedi'i gadarnhau mewn cyfraith achosion, yn wreiddiol yn achos Clarke v. Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions (2002)

177. Bydd unrhyw asesu manwl o wrthwynebiad diwylliannol yr unigolyn yn cael ei wneud o dan bolisiau'r Awdurdod Tai Lleol ar ddirgaredd neu ddyrannu lleiniau, yn hytrach na thrwy'r asesiad llety.

178. Bydd y wybodaeth a geir drwy holiadur yr arolwg (yn enwedig o'r atebion i gwestiynau A2, A3, A7 a'r tabl yn Adran B) yn helpu'r Awdurdod Lleol i ganfod a yw unigolion yn credu bod ganddynt wrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn tai confensiynol. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol wneud amcangyfrif ym mhob achos o ba unigolion y gellid dangos bod ganddynt wrthwynebiad diwylliannol. Dim ond ar gyfer dynodi'r anghenion llety yn yr asesiad y defnyddir yr amcangyfrif hwn ac ni ellir ei ddefnyddio yn lle ymchwiliad priodol i amgylchiadau penodol o dan y polisi ar ddirgaredd neu ddyrannu lleiniau.

179. Wrth wneud amcangyfrifon, dylid ystyried yr atebion i'r cwestiynau yn yr holiadur a'r pwyntiau a nodwyd ym mharagraff 175 uchod. Rydym yn derbyn bod elfen oddrychol mewn amcangyfrifon o'r fath. Fodd bynnag, rhaid mynd ati'n bragmataidd i fesur nifer yr aelwydydd mewn tai confensiynol sydd ag angen lleiniau ar gyfer cartrefi symudol.

180. Ni ddylai'r Awdurdod Lleol fynnu bod unigolion sy'n byw mewn cartref symudol ar hyn o bryd yn profi bod ganddynt wrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn tai confensiynol i ddibenion y GTAA.

181. Lle y derbynnir ei bod yn debygol bod gan unigolion wrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn tai confensiynol, dylai'r Awdurdod Tai Lleol gynnwys yr angen a nodwyd gan yr aelwydydd hyn yn y galw presennol am leiniau i gartrefi symudol. Dylid cynnwys hyn yn Rhes I yn **Tabl 3 – ar safleoedd**.

182. Hyd yn oed os na dderbynnir bod gwrthwynebiad diwylliannol, gall fod yn fanteisiol i'r Awdurdod Tai Lleol gytuno i symud unigolion sydd yn y sefyllfa hon am ei fod o les i bawb sy'n gysylltiedig. Os yw'r unigolion yn byw mewn tai confensiynol cymdeithasol, gellid rhyddhau tai cymdeithasol drwy ddarparu lleiniau ar gyfer cartrefi symudol yn eu lle. Bydd hyn yn berthnasol iawn mewn ardaloedd Awdurdod Lleol lle mae tai confensiynol cymdeithasol yn brin.

Galw am lety mewn ardal leol arall

183. Wrth gynnal yr arolwg, mae'n debygol y bydd rhai aelodau o'r gymuned yn datgan dewis neu angen i gael llety ar safle cartrefi symudol yn ardal Awdurdod Lleol arall.

184. Ceir data yn adrannau C a D yn yr holiadur a fydd yn helpu'r Awdurdod Lleol i ddeall lle y bydd y galw am lety o'r fath yn debygol o godi. Hefyd, dylai'r data yn adran E fod yn ddefnyddiol i awdurdodau cyfagos wrth rag-weld anghenion am lety tramwy yn y dyfodol.

185. Dylai Awdurdodau Lleol geisio cydweithio ag ardaloedd eraill i rag-weld yr anghenion hyn. Bydd yn haws gwneud hyn os yw partneriaeth ranbarthol wedi'i sefydlu eisoes i gynnal asesiadau llety neu os bydd yr Awdurdodau Lleol eraill yn cynnal eu hasesiadau yr un pryd.

186. Mae'n bwysig ystyried dewisiadau aelodau o'r gymuned a bod yr Awdurdodau Lleol perthnasol yn cydweithio i bennu ym mhle y bydd y galw am lety'n codi. Os nodwyd bod galw am lety yn ardal awdurdod arall, rhaid cofnodi hynny a darparu manylion i'r awdurdod perthnasol.

187. Mae hyn yn debygol o fod yn broses ddwyffordd lle y bydd y galw'n cael ei nodi yn y ddau awdurdod a'r wybodaeth yn cael ei rhannu rhyngddynt. Gellir hwyluso'r broses hon drwy weithio mewn partneriaeth. Beth bynnag fydd y dull o weithredu, rhaid penderfynu sut i ddelio ag amgylchiadau o'r fath cyn cynnal yr arolwg.

188. Mae'n bosibl, o ganlyniad i'r broses hon, y bydd yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal y GTAA yn cael ei hysbysu gan Awdurdodau Lleol am aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd ei ardal. Bydd gwybodaeth am hyn hefyd yn yr atebion i gwestiwn D5. Yn olaf, gellir cael gwybodaeth hefyd yn rhestr aros yr Awdurdod Lleol am leiniau a fydd yn cynyddu'r ffigur hwn. Bydd nifer yr aelwydydd a nodwyd yn cael ei gofnodi yn rhes J yn **Tabl 3 – ar safleoedd**.

Galw am lety o safleoedd diawdurdod

189. Lle mae arolygon o'r rheini sy'n meddiannu gwerysilloedd neu ddatblygiadau diawdurdod yn dangos bod galw am leiniau i gartrefi symudol yn yr ardal Awdurdod Lleol lle maent yn byw ar hyn o bryd, bydd yr Awdurdod Lleol am gadarnhau nad oes gan aelodau'r cymunedau lety awdurdodedig arall mewn mannau eraill.

190. Os bydd llety arall (lleiniau neu dai) gan yr aelwydydd hyn mewn mannau eraill, ni fyddai eu dyhead am leiniau yn yr ardal yn cyfateb i angen.

191. Mae cylchlythyr cynllunio Llywodraeth Cymru 30/2007 "Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr" yn egluro na fyddai'n briodol cymhwyso meini prawf am gysylltiad lleol at Sipsiwn a Theithwyr sydd am sefydlu eu safleoedd eu hunain mewn ardal.

192. Dylid cofnodi'r galw o wersyloedd diawdurdod a datblygiadau diawdurdod yn ardal yr Awdurdod Lleol yn rhesi F a G yn **Tabl 3 – ar safleoedd**, yn y drefn honno. Mae hyn yn cynnwys safleoedd sy'n cael eu 'goddef' ar hyn o bryd sy'n agored i gamau gorfodi cynllunio a'r rheini sy'n byw ar safleoedd dros dro lle bydd caniatâd cynllunio'n dod i ben o fewn 5 mlynedd.

193. Ni ddylid cymhwyso unrhyw brawf am gysylltiad lleol at ddyheadau am leiniau tramwy mewn ardal. Drwy ddiffiniad, mae meddianwyr dichonol y safleoedd hyn yn llai tebygol o fod â chysylltiad lleol a byddai unrhyw brawf o'r fath yn tansilio camau i hwyluso ffordd y fyw Sipsiwn a Theithwyr.

Gorlenwi

194. Mae'r galw am leiniau preswyl yn debygol o godi hefyd o ganlyniad i orlenwi, un ai ar safleoedd presennol neu mewn tai confensiynol. Oherwydd prinder safleoedd, ceir gorlenwi ar leiniau mewn nifer o'r safleoedd a ddarparwyd ledled Cymru. Mae goblygiadau difrifol o ran iechyd a diogelwch yn gallu codi o'r sefyllfa hon, yn enwedig y perygl o dân os bydd carafannau ychwanegol ar y llain.

195. Nid oes diffiniad cyfreithiol o orlenwi yng nghyd-destun cartrefi symudol. Fodd bynnag, gellir addasu'r Safon Ystafelloedd Gwely a ddefnyddir yng nghyd-destun tai confensiynol at yr amgylchiadau hyn.

196. Y diffiniad o'r Safon Ystafelloedd Gwely yn y canllawiau hyn yw gofyniad am le cysgu ar wahân ar gyfer:

- a. pob pâr o oedolion (priod neu'n cyd-fyw);
- b. unrhyw oedolyn arall sy'n 16 oed neu'n hŷn;
- c. pâr o blant o dan 16 oed o'r un rhyw;
- d. pâr o blant o dan 10 oed beth bynnag fo'u rhyw;
- e. unrhyw blentyn arall.

197. Dylid cymhwyso'r Safon Ystafelloedd Gwely hefyd at gartrefi symudol. Fodd bynnag, dylid ei chymhwyso at leoedd cysgu ar wahân, yn hytrach nag ystafelloedd gwely. Yn wahanol i dai confensiynol, mae'n bosibl y bydd modd lliniaru unrhyw orlenwi drwy osod cartref symudol ychwanegol ar y llain.

198. Wrth ystyried a fydd yn bosibl i'r aelwyd osod cartref symudol ychwanegol ar y llain, bydd angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod hyn yn gyson â'r canllawiau ar Dàn a Diogelwch yn nogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymhell bod Awdurdodau Lleol yn ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub Lleol os nad ydynt yn sicrhau a fydd yn ddiogel gosod cartrefi symudol ychwanegol ar y safle. Os na fydd yn ddiogel i aelwydydd osod cartref symudol ychwanegol a bod ei llety presennol yn groes i'r Safon Ystafelloedd Gwely, bydd hyn yn dangos bod galw ychwanegol am leiniau preswyl.

199. Bydd yn haws asesu gorlenwi mewn tai confensiynol a bydd Awdurdodau Tai Lleol wedi arfer â chynnal asesiadau o'r fath o dan eu swyddogaethau tai presennol. Fodd bynnag, os ceir gorlenwi mewn tai a bod hyn o ganlyniad i ffurfio aelwyd newydd, rhaid i'r Awdurdod Lleol gofio y gall hyn olygu bod galw ychwanegol am leiniau preswyl. Os yw'r gorlenwi wedi digwydd am fod plant dibynnol wedi dod yn oedolion, mae'n bosibl y bydd yr aelwydydd newydd hyn yn mynegi awydd i fyw mewn cartref symudol. Gan na ellir honni mai'r unigolion hyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol i fyw mewn tai confensiynol, dylai Awdurdodau Lleol gymryd bod hyn yn alw ychwanegol sydd i'w ddiwallu.

200. Bydd Awdurdodau Lleol yn cael gwybodaeth ddefnyddiol yn yr atebion i adran B o'r holiadur am ganfyddiadau ynghylch gorlenwi ymysg y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg.

Cyfrifo cyfanswm yr angen am leiniau preswyl

201. Gellir canfod y galw presennol am leiniau preswyl drwy adio'r galw a gafwyd o wersylloedd diawdurdod (rhes F), o ddatblygiadau diawdurdod (rhes G), drwy orlenwi (rhes H), gan y rheini sydd â gwrthwynebiad diwylliannol i'w llety presennol (rhes I) a chan aelwydydd y mae disgwyl iddynt gyrraedd o leoedd eraill (rhes J).

202. Dylai cyfanswm y galw presennol am leiniau preswyl ymddangos yn rhes M yn Nhabl 3.

Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol

203. Bydd yn bosibl rhag-weld y twf mewn aelwydydd yn y dyfodol ar sail yr atebion gan gyfranogwyr yn adran D o'r holiadur. Bydd hyn yn rhoi amcangyfrif o'r aelwydydd ychwanegol yn y 5 mlynedd nesaf. Rhaid cofio y bydd y twf mewn aelwydydd yng nghymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o fod yn fwy nag yn y gymuned sefydlog ehangach. Fodd bynnag, mae data a gasglwyd o'r blaen wrth gynnal asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr yn awgrymu bod y twf hwn rhwng 1.5% a 3% y flwyddyn.⁴

204. Dylai'r Awdurdod Lleol ddadansoddi'r data demograffig a roddwyd gan aelodau o'r cymunedau er mwyn rhag-weld y twf yn ei ardal yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd. Fodd bynnag, dylai ystyried y data hyn yng nghydestun yr amrediad uchod er mwyn peidio â chyrraedd amcangyfrif sy'n rhy isel neu uchel **Tabl 3** – .

205. Y twf hwn a ragwelir yw'r nifer a amcangyfrifir o aelwydydd sy'n cynrychioli galw am leiniau preswyl yn y dyfodol, a dylid ei ddefnyddio i gyfrifo rhes K yn Nhabl 3 – Amcangyfrif o'r angen am leiniau preswyl.

⁴ Opinion Research Services, 'Household formation rates for Gypsies and Travellers: Technical note' (2013); Pat Niner / ODP, 'Local Authority Gypsy/Traveller Sites in Wales' (2003)

206. Mae colofn gyntaf rhes K yn dangos nifer yr aelwydydd sy'n meddiannu lleiniau awdurdodedig yn yr ardal ar hyn o bryd yn ogystal â'r galw presennol am leiniau preswyl, wedi tynnu nifer y lleoedd gwag a ddisgwylir mewn lleiniau awdurdodedig sydd wedi'i nodi yn rhes D.

207. Yn y cyfrifiad enghreifftiol yn Nhabl 3, mae twf aelwydydd wedi'i amcangyfrif drwy ddefnyddio'r ffigur canolig a roddwyd ar gyfer twf gan amcangyfrifon blaenorol, a'i luosi â chyfanswm yr aelwydydd yn yr ardal, sy'n ymddangos yng ngholofn gyntaf rhes K. Dim ond enghraifft yw'r ffigur canolig ar gyfer twf a ddefnyddiwyd, a dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu cyfradd twf leol eu hunain.

208. Mae'n anochel hefyd y bydd rhai aelwydydd yn chwalu dros amser. Wrth gyfrifo Tabl 3 – Amcangyfrif o'r angen am leiniau preswyl ar safleoedd – dylid ystyried y chwalu ar aelwydydd wrth i Awdurdodau Lleol ystyried cyfradd trosiant lleiniau yn rhes D. Bydd y trosiant hwn yn cynnwys lleiniau sydd wedi'u hailddyrannu ar ôl i aelwydydd chwalu.

209. Gan fod yr amcangyfrif o dwf mewn aelwydydd wedi'i seilio ar ddyheadau aelodau o'r gymuned, byddai'n anodd rhag-weld yr union dwf dros gyfnod o fwy na 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r GTAA yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), sy'n ymestyn dros gyfnod hirach. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, dylai'r GTAA ddefnyddio'r un gyfradd ar gyfer amcangyfrif twf dros gyfnod y CDLI er mwyn cael ffigur am yr angen ychwanegol a fydd yn codi yn ardal yr Awdurdod Lleol.

210. Er y bydd y broses hon yn rhoi ffigur dangosol am yr angen am leiniau dros gyfnod y CDLI, bydd disgwyl i'r ffigur hwn gael ei adolygu bob tro y cynhelir y GTAA. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhagolwg o dwf mor gywir â phosibl ac y ceir y nifer lleiaf posibl o newidiadau yn y CDLI bob tro y cyhoeddir GTAA.

211. Mae modd dod o hyd i'r angen am leiniau aelwydydd ychwanegol (rhes L) drwy dynnu nifer presennol yr aelwydydd yng ngholofn gyntaf rhes K o'r amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol yn ail a thrydedd golofn y rhes. Bydd y gwerthoedd hyn yn cael eu nodi yn rhesi N ac O yn Nhabl 3.

212. Gellir canfod cyfanswm yr angen preswyl neu'r angen nas diwallwyd am leiniau preswyl ychwanegol drwy adio'r galw presennol am leiniau preswyl a'r angen a amcangyfrifir yn y dyfodol o leiniau ychwanegol, ac wedyn tynnu'r cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl. Bydd y ffigur sydd ar ôl yn dangos yr angen nas diwallwyd ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd (rhes Q) a thros gyfnod y cynllun (rhes R), fel y gwelir ar waelod yr enghraifft drosodd. Rhaid cwrdd â'r angen nas diwallwyd o fewn yr ardal ar gyfer 5 mlynedd mor gyflym â phosibl. Dylid cwrdd â'r angen tymor hwy yn ystod cyfnod y CDLI.

Tabl 3 – Amcangyfrif yr angen am leiniau preswyl ar safleoedd

Y cyflenwad presennol o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau
A. Lleiniau Awdurdod Lleol a feddiannwyd	40
B. Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannwyd	40
Cyfanswm	80

Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau
C. Lleiniau Awdurdod Lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael	1
D. Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos (gweler nodyn 1)	12
E. Lleiniau Awdurdod Lleol a phreifat newydd y mae caniatâd cynllunio ar eu cyfer	12
Cyfanswm	25

Y galw presennol am leiniau preswyl	Y galw am leiniau
F. Gwersylloedd diawdurdod	5
G. Datblygiadau diawdurdod	10
H. Lleiniau wedi'u gorlenwi (gweler nodyn 2)	15
I. Tai confensiynol (gweler nodyn 3)	15
J. Aelwydydd newydd a fydd yn cyrraedd (gweler nodyn 4)	5
Cyfanswm	50

Aelwydydd presennol (gweler nodyn 7)	Aelwydydd yn y dyfodol (ym mlwyddyn 5)	Aelwydydd yn y dyfodol (cyfnod y Cynllun)
K. 105	L. 117 (gweler nodyn 5)	M. 147 (gweler nodyn 6)
L. Cyfanswm yr angen am leiniau ychwanegol	12	42

Angen heb ei ddiwallu	Yr angen sy'n codi	Yr angen sydd wedi'i ddiwallu
M. Y galw presennol am leiniau preswyl	50	
N. Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (5 mlynedd)	14	
O. Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (cyfnod y Cynllun)	47	
P. Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl		25
Q. Angen nas diwallwyd (5 mlynedd)	39 llain	
R. Angen nas diwallwyd (cyfnod y Cynllun)	72 llain	

Nodiadau

1. Wedi'i ddangos drwy ddadansoddi data am drosiant lleiniau.
2. Gorlenwi – e.e. lle mae'r nifer yn y teulu wedi cynyddu i'r graddau nad oes digon o le i'r teulu yn ei gartref symudol ac nad oes digon o le ar y llain neu'r safle i osod cartref symudol ychwanegol.
3. Wedi'i ddangos yn yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â gwrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn tai confensiynol, y rheini sy'n profi gorlenwi, a'r rheini sydd wedi tyfu'n oedolion ac am fyw ar safle.
4. Wedi'i ddangos yn yr arolwg drwy'r rhestr aros, y Cyfrifiad Carafannau neu drwy weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth.
5. 118 o aelwydydd (y cyflenwad presennol o leiniau preswyl+ y galw presennol am leiniau preswyl – y lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag) @ 2.25% o flwyddyn i flwyddyn am 5 mlynedd. Enghraifft yn unig yw'r gyfradd twf. Dylid seilio'r gyfradd twf leol ar fanylion yn yr arolwg lleol.
6. 105 o aelwydydd (y cyflenwad presennol o leiniau preswyl+ y galw presennol am leiniau preswyl – y lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag) @2.25% o flwyddyn i flwyddyn am 15 mlynedd. Enghreifftiau'n unig yw'r gyfradd twf a'r cyfnod o 15 mlynedd ar gyfer y cynllun. Dylid seilio'r gyfradd twf leol ar fanylion yn yr arolwg lleol. Dylai cyfnod y cynllun gyfateb i gyfnod y CDLI presennol.
7. Ylleiniau awdurdodedig sydd wedi'u meddiannu a'r galw presennol am leiniau preswyl, gan dynnu nifer y lleoedd gwag a ddisgwylir o leiniau awdurdodedig.

Cyfrifo'r angen am safleoedd tramwy

213. Ar ôl asesu anghenion llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd diawdurdod, gellir pennu a yw eu presenoldeb ar y safleoedd hynny'n dangos bod angen am leiniau preswyl yn yr ardal, bod angen am leiniau tramwy, neu nad oes angen am fod y gwersyll yn ganlyniad i gynnal un achlysur teuluol neu i argyfwng meddygol. Sefydli rhai gwersylloedd hefyd heb yr awydd i aros yn parhaol neu dros dro yn yr ardal. Mae'n debygol mai dim ond "mynd drwodd" y mae'r meddianwyr hyn. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried a fyddai'n fwy priodol darparu manau aros dros dro os yw gwersylloedd o'r fath yn brin neu safle tramwy mwy cynaliadwy ar gyfer rhai sy'n aros yn amlach. Mae rhagor o wybodaeth am ymateb i wersylla diawdurdod yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Rheoli Gwersylla Diawdurdod*.⁵

214. Cyfleusterau tymor byr anghynaliadwy yw manau aros dros dro lle y gellir adleoli gwersyll sydd wedi'i sefydlu mewn man amhriodol. Dylai'r Awdurdod Lleol bennu manau aros dros dro ymlaen llaw fel y gellir symud gwersylloedd iddynt yn gyflym pan fo angen. Fodd bynnag, os ceir nifer sylweddol o wersylloedd diawdurdod yn ardal yr Awdurdod Lleol, dylai ystyried darparu safleoedd tramwy.

215. Yn wahanol i fannau aros dros dro, mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol y caiff aelwydydd eu meddiannu am gymaint â 3 mis ar y tro. Gellir cael cymorth drwy Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddarparu'r safleoedd hyn a byddai Awdurdodau Lleol yn gallu codi rhent wythnosol a thaliadau gwasanaeth ar breswylwyr.

216. Byddai'r angen am greu safleoedd tramwy yn codi os oedd nifer sylweddol o wersylloedd yn cael eu sefydlu yn yr ardal, yn enwedig rhwng mis Mawrth a mis Hydref ac os oeddent yn para am fwy nag ychydig o ddiwrnodau.

217. Er bod syniad cyffredin y dylai Sipsiwn a Theithwyr ddilyn ffordd nomadig o fyw, mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod y ffordd draddodiadol led- nomadig o fyw'n anodd iawn ei gwireddu bellach. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig wedi'u cydnabod yn swyddogol yn lleiafrifoedd ethnig ac nid oes angen iddynt ddilyn eu ffordd o fyw draddodiadol o deithio neu nomadiaeth er mwyn cadw eu hunaniaeth hiliol. Er hynny, mae nifer o Sipsiwn a Theithwyr yn ceisio parhau â ffordd led-nomadig o fyw o leiaf, gan deithio fel arfer rhwng diwedd Mawrth a dechrau Hydref bob blwyddyn.

218. Mae'n bosibl bod llety parhaol mewn manau eraill gan rai sydd mewn gwersylloedd diawdurdod ac felly ni fyddant yn cael eu cyfrif yn rhai sydd ag angen lleiniau preswyl yn ardal yr arolwg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i'r galw am leiniau tramwy.

219. Mae achos Chapman v UK (Llys Hawliau Dynol Ewrop, 2001) wedi cadarnhau bod dyletswydd ar y DU i hwyluso ffordd o fyw Sipsiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hyn yn cynnwys awydd am ffordd led-nomadig o fyw er bod diffyg manau aros ar gyfer y cymunedau hyn. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, bydd dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gwrdd ag anghenion dynodedig am leiniau tramwy, yn ogystal ag anghenion am leiniau preswyl.

⁵ Rheoli Gwersylla Diawdurdod (2013), Llywodraeth Cymru:
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/accommodation-needs/?lang=cy>

Pennod Pedwar: Cyflwyno Adroddiadau i Weinidogion Cymru

220. O dan Adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu hadroddiadau am aseidiadau llety Sipsiwn a Theithwyr i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.

221. Rhaid i'r adroddiad nodi'n glir sut yr oedd yr asesiad wedi'i gyflawni a dangos crynodeb o'r ymgynghori a gafwyd mewn cysylltiad â'r asesiad, gan gynnwys yr ymatebion a gafwyd. Rydym yn annog Awdurdodau Lleol i gynnwys dadansoddiad o anghenion llety yn yr adroddiad ar ffurf debyg i **Tabl 3 – Amcangyfrif yr angen am leiniau preswyl ar safleoedd**. Rhaid cynnwys manylion yr anghenion dynodedig am leiniau yn yr adroddiad hefyd.

222. Rydym yn argymhell bod Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu hadroddiad llawn am yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr a fydd yn cynnwys y wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gymeradwyo'r adroddiad mor fuan â phosibl.

223. Bydd Gweinidogion Cymru yn asesu'r adroddiad a gyflwynwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn a'i fod yn ddibynadwy o ran ansawdd yr ymgysylltu ag unigolion perthnasol a chyfrifo anghenion.

224. Gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r asesiad fel y'i cyflwynwyd, cymeradwyo'r asesiad ar ôl ei addasu, neu wrthod yr asesiad a mynnu bod asesiad newydd yn cael ei gynnal. Os na chymeradwyr yr adroddiadau fel y'u cyflwynwyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Awdurdod Lleol dan sylw ynghylch y newidiadau sydd eu hangen.

225. Wedi i asesiad gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i'r Awdurdod Lleol ei gyhoeddi. Rydym yn argymhell bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi'r asesiad llety ar eu gwefan ac yn darparu adborth i'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg i sicrhau eu bod yn deall sut y mae eu barn wedi'i chynnwys a beth fydd y camau nesaf.

226. Ar unrhyw adeg, rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae arnynt ei hangen ar gyfer asesu'r adroddiadau hyn.

227. Pwrpas y canllawiau hyn yw cynghori Awdurdodau Lleol ynghylch y broses o gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, rydym yn derbyn ei bod yn bosibl y bydd angen addasu'r union ddull o weithredu'n rhesymol i gwrdd ag amgylchiadau lleol.

228. Darparwyd drafft o dempled ar gyfer cyflwyno asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr yn **Atodiad 4** i helpu Awdurdodau Lleol i ddeall pa wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei chael er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

229. Nid yw Llywodraeth Cymru am dderbyn data y gellir eu cysylltu'n bersonol â Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswyl yn eu hardal pan fydd Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu GTAA ar gyfer craffu.

Pennod Pump: Gwneud defnydd o'r asesiad

230. Wedi i'r asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bydd Awdurdodau Lleol o dan ddyletswydd gyfreithiol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau ar gyfer cartrefi symudol i gwrdd â'r anghenion dynodedig. Adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 sy'n darparu'r pŵer i Awdurdodau Lleol wneud hyn. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Lleol gydnabod bod nifer o offer gwahanol ar gael iddynt i'w helpu i gyflawni'r nod hwn.

231. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried i ba raddau y bydd pob un o'r opsiynau canlynol yn gallu eu helpu i gwrdd â'r angen nas diwallwyd:

- a. darparu safleoedd Awdurdod Lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;
- b. helpu aelwydydd i ddatblygu safleoedd preifat hyfyw;
- c. helpu aelwydydd i ddatblygu dulliau gweithredu hyfyw sy'n cael eu llywio gan y gymuned fel Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.

232. Bydd Opsiwn A yn rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol i reoli'r dyrannu ar leiniau ar y safleoedd hyn, yn unol â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a'u polisiau ar ddyrannu tai. Byddai hyn yn golygu bod modd llenwi lleiniau gwag yn y dyfodol er mwyn ymladd yn erbyn gorlenwi neu ddiartrefedd yn yr ardal. Hefyd, mewn rhai amgylchiadau, gellid adleoli meddianwyr gwersylloedd diawdurdod yn effeithlon i leiniau gwag ar safleoedd o'r fath gan ddod â manteision cymdeithasol ychwanegol.

233. Os bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu dilyn Opsiwn A i gwrdd â rhai neu'r cyfan o'r anghenion nas diwallwyd, dylent fod yn gymwys i wneud cais i Lywodraeth Cymru am Grant Cyfalaf Safleoedd. Ar hyn o bryd mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd yn darparu o leiaf £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer adnewyddu safleoedd a'u datblygu.

234. Dylai Awdurdodau Lleol roi sylw dyladwy i ganllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru wrth geisio datblygu safleoedd. Bydd yn bwysig hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn ystyried cylchlythyr cynllunio Llywodraeth Cymru Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr ac, wrth ddatblygu safleoedd ar gyfer Siewmyn Teithiol, cylchlythyr 78/91 a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gymreig ac Adran yr Amgylchedd. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

235. Er mwyn defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd, rhaid i Awdurdodau Lleol gadw perchenogaeth neu lesddaliad y safle sydd i'w ddatblygu. Rhaid cael y caniatâd cynllunio priodol ar gyfer safleoedd dichonol cyn cyflwyno ceisiadau am y Grant Cyfalaf Safleoedd.

236. Mae hefyd yn bosibl i'r Awdurdod Lleol ddatblygu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac wedyn trefnu i sefydliad arall gael ei gontractio i reoli'r safle. Nid yw hyn wedi bod yn llwyddiannus bob amser yng Nghymru yn y gorffennol a gallai fod yn fwy priodol ar gyfer cymunedau penodol. Er enghraifft, efallai y bydd Siewmyn Teithiol yn ffafrio rheoli safleoedd gan y Showmen's Guild.

237. Wrth ddilyn Opsiwn B, byddai'r Awdurdod Lleol yn cydweithio ag aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr sydd â chyfle i ddatblygu safleoedd preifat hyfyw yn yr ardal. Bydd gwybodaeth ar gael i Awdurdodau Lleol yn yr ymatebion i adran C yn yr holiadur am ddyheadau ynghylch safleoedd preifat. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol geisio trafod cynigion â Sipsiwn a Theithwyr ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau mai dim ond ceisiadau am safleoedd hyfyw a fydd yn mynd yn eu blaen. Mae'n bosibl y bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn gallu helpu i ymgysylltu â'r gymuned ynghylch cynigion am safleoedd.

238. Bydd yr asesiad o hyfywedd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, felly ni ellir cynnwys methodoleg benodol yn y canllawiau hyn. Bydd fforddiadwyedd y safleoedd yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y teulu sydd am sefydlu'r safle preifat a'r polisiâu cynllunio lleol perthnasol. Os oes polisiâu priodol gan Awdurdodau Lleol ar safleoedd eithriedig gwledig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, mae'r safleoedd yn fwy tebygol o fod yn hyfyw, gan fod disgwyl i dir fod yn rhatach mewn lleoliadau mwy gwledig. Dylai Awdurdodau Lleol drafod hyfywedd pob safle yn ei dro.

239. Ni fyddai dilyn Opsiwn B yn rhyddhau'r Awdurdod Lleol o'i ddyletswydd i ddarparu safleoedd nes bod y lleiniau ar gael i'w meddiannu. Er hynny, drwy helpu aelwydydd i ddatblygu safleoedd, mae'n debygol y bydd y costau i'r Awdurdod Lleol neu Lywodraeth Cymru yn fach iawn. Hefyd, byddai'r safleoedd sy'n cael eu creu drwy'r broses hon yn fach a byddai'n haws i'r meddianwyr integreiddio â'r gymuned leol.

240. Wrth ddilyn Opsiwn C, byddai'r Awdurdod Lleol yn cydweithio ag aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr i ddatblygu dull gweithredu sy'n cael ei lywio gan y gymuned fel Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (YTC).

241. Mae YTC yn fecanwaith ar gyfer caffael a dal tir ac eiddo er lles ardal neu gymuned benodol. Un o ddibenion cyffredin yr YTC yw darparu tai fforddiadwy. Fodd bynnag, gellir sefydlu YTC at ddibenion eraill hefyd, gan gynnwys mentrau cymunedol/cymdeithasol ac amcanion diwylliannol, adloniadol, amgylcheddol a chadwraethol.

242. Gellir cynnal YTC i ddal gwerth y tir ar ran y gymuned am byth gan hwyluso defnydd cynhyrchiol o'r tir ar wahân i'r berchenogaeth arno. Rhaid i'r YTC fod yn sefydliad di-elw lle mae'r gymuned yn berchen ar y tir a/neu eiddo neu asedau mewn ymddiriedolaeth.

243. Gallai safle fod yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth ei hun, yn hytrach na'r meddianwyr, a byddai'n cael ei gadw at ddefnydd y cymunedau hyn yn hytrach na'i droi'n safle preifat yn y tymor hir.

244. Gallai'r Awdurdod Lleol fod yn un o aelodau'r YTC, ochr yn ochr ag aelodau'r gymuned o Sipsiwn neu Deithwyr ac unigolion neu sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig.

245. Mae'n bosibl y bydd cynlluniau o'r fath yn fwy deniadol na byw ar safle Awdurdod Lleol yng ngolwg rhai cymunedau, er enghraifft, Teithwyr Newydd. Mae'r awydd diwylliannol ymysg y gymuned hon am fyw mewn ffordd ecolegol a chydweithredol yn briodol i ddatblygiad o'r math hwn. Wrth ystyried a yw am ddilyn opsiynau fel safleoedd preifat neu YTCau, bydd yr Awdurdod Lleol am adolygu'r atebion gan gyfranogwyr yn adran C yn yr holiadur. Mae'n bosibl na fydd rhai cymunedau'n barod i fyw ar safleoedd sy'n eiddo i Awdurdod Lleol neu'n cael ei reoli ganddo.

246. Mae cynlluniau i ddatblygu YTCau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnig yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, y prif rwystr oedd caffael tir i'w ddatblygu. Os gellir goresgyn y rhwystr hwn, mae'n bosibl y bydd safleoedd o'r math hwn yn ddewis hyfyw yn lle safleoedd Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat.

247. Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried pwy fydd meddianwyr y safle y mae am ei ddatblygu gan fod materion diwylliannol penodol i'w hystyried yn achos pob cymuned wrth baratoi cynigion ar gyfer cynllunio neu reoli. Mae rhagor o wybodaeth yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*.

248. Bydd y data a gesglir drwy broses yr asesiad llety yn cael eu hystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Un o'r meini prawf ar gadernid y Cynllun Datblygu drafft wrth ei archwilio fydd y graddau y mae wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy. Drwy ddilyn y canllawiau hyn yn fanwl, bydd Awdurdodau Lleol yn gallu dangos eu bod wedi cynnal asesiad dibynadwy. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddangos hefyd y bydd yn cwrdd â'r angen nas diwallwyd sydd wedi'i ddynodi drwy'r system gynllunio.

249. Os nad yw'r Cynllun Datblygu wedi'i fabwysiadu eto, dylid cynnwys yr anghenion a ddynodwyd yn yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr ynddo. Gwneir hyn drwy baratoi cynigion ar gyfer safleoedd penodol i gwrdd â'r angen a ddynodwyd yn ystod cyfnod cynllun yr asesiad a pholisïau seiliedig ar feini prawf i ddarparu ar gyfer unrhyw angen ychwanegol a fydd yn codi drwy gydol cyfnod y Cynllun Datblygu.

250. Os yw'r Cynllun Datblygu wedi'i fabwysiadu eisoes, bydd angen i'r Awdurdod Lleol adolygu ac ystyried diwygio ei bolisïau mewn cysylltiad ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn Adolygiad Monitro Blynyddol nesaf y Cynllun Datblygu. Wrth ddiwygio'r cynllun, bydd angen pennu safleoedd posibl ar gyfer datblygu lleiniau i gwrdd â'r angen nas diwallwyd. Dylid cynnwys digon o leiniau yn y cynllun diwygiedig i gwrdd â'r angen nas diwallwyd. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r Cynllun Datblygu er mwyn darparu safleoedd perthnasol.

251. Bydd Awdurdodau Lleol yn ymwybodol bod y broses o bennu safleoedd a sicrhau caniatâd cynllunio yn gallu bod yn un hir. Ceir ymgynghori cyhoeddus ar y prosesau hyn ac mae'n bosibl y bydd preswylwyr neu fusnesau cysylltiedig am herio penderfyniadau. Felly, rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod ei sylfaen dystiolaeth yn gadarn ac ymdrechu i bennu safleoedd i gwrdd â'r angen nas diwallwyd cyn gynted â phosibl.

252. Gellir defnyddio'r data mewn ffyrdd eraill heblaw penderfynu ynghylch darpariaeth newydd, a byddant yn cyfrannu hefyd mewn ffyrdd eraill at waith yr Awdurdod Lleol. Byddant yn rhoi gwell dealltwriaeth o ffyrdd o wella tai confensiynol er mwyn y Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ynddynt. Byddant yn helpu i ddangos pa gymorth sydd ei angen ar Sipsiwn a Theithwyr i gael a chadw llety sefydlog, a sut y gellir eu helpu i gael gafael ar wasanaethau. Dylid cynnwys unrhyw anghenion am dai confensiynol ychwanegol yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

Pennod Chwech: Adolygu a Diweddaru

253. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) unwaith bob 5 mlynedd o leiaf. Y rheswm am hyn yw ei bod yn anodd gwneud asesiad cywir o newidiadau ym mhoblogaeth Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod o fwy na 5 mlynedd.

254. Ar ôl pennu'r angen nas diwallwyd am leiniau drwy'r broses asesu a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, dylai Awdurdodau Lleol ymdrechu i gwrdd â'r angen drwy broses y Cynllun Datblygu.

255. Bydd angen asesu'r cynnydd ar gwrdd ag anghenion a ddynodwyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu defnyddio ei bwerau cynllunio, gan gynnwys ei swyddogaethau gorfodi, yn effeithiol. Rhaid i Awdurdodau Lleol ddangos eu bod yn gwneud popeth rhesymol yn eu gallu i gwrdd ag anghenion. Gall arolygwyr cynllunio asesu cynnydd yr Awdurdod Lleol ar gwrdd â'r anghenion hyn wrth benderfynu ynghylch materion gorfodi cynllunio.

256. Yn ogystal â hyn, mae pŵer gan Weinidogion Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gyfarwyddo Awdurdodau Lleol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu'r safleoedd sydd eu hangen.⁶ Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn os ydynt wedi'u hargyhoeddi nad yw Awdurdodau Lleol yn cyflawni eu dyletswyddau i ddarparu'r safleoedd sydd eu hangen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

257. Mae Awdurdodau Lleol yn rhydd i gynnal GTAA bob 5 mlynedd neu'n amlach. Gallant ddewis cynnal asesiadau'n amlach os pennwyd bod newid sylweddol ym maint yr angen yn yr ardal. Gall Awdurdodau Lleol ddewis cydamseru'r adolygiad o'u GTAA â'r adolygiad sylweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol bob 4 blynedd.

258. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r darparu ar safleoedd a'r cynnydd ar gwrdd â'r angen a ddynodwyd yn ardal pob Awdurdod Lleol.

259. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau hyn yn ystod 2018 yng nghyd-destun unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cynnig ym Mil Cynllunio (Cymru), os rhoddir Cydsyniad Brenhinol iddynt. Bydd newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i argymhellion Comisiwn Williams yn cael eu hystyried hefyd. Bydd y cylch cyntaf o asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr a luniwyd o dan y canllawiau hyn yn cael ei adolygu hefyd er mwyn ystyried a fydd angen gwneud unrhyw newidiadau cyn yr ail gylch.

⁶ Disgwylir i'r pŵer gychwyn ym Mawrth 2016

Atodiad 1: Sefydliadau Perthnasol

Sefydliadau yng Nghymru:

Gypsies & Travellers Wales

113-116 Bute Street

Cardiff Bay

Cardiff

CF10 5EQ

029 2021 4411

info@gtwales.org.uk

Travelling Ahead (yn Save the Children Cymru)

8 Cathedral Road

Caerdydd

CF11 9LJ

029 2039 6838

travellingahead@savethechildren.org.uk

<http://www.travellingahead.org.uk>

The Unity Project

Ysgol Gynradd Gymunedol Cil-maen

Penfro

Sir Benfro

SA71 4LS

unity@pembrokeshire.gov.uk

Romani Cultural and Arts Company

Temple Court

13a Cathedral Road

Caerdydd

CF11 9HA

isaacblake@romaniarts.co.uk

<http://www.romaniarts.co.uk>

The Bridges Project

Merthyr Tudful

01685 353959

lb2@smt.org.uk

The Showmen's Guild of Great Britain (Siewmyn Teithiol yn unig)

De Cymru –

110 New Dock Road

Llanelli

SA15 2HH

07949 289 075

Sgwales@talktalk.co.uk

Gogledd Cymru –

11 St. Mary's Place

Bury

Swydd Gaerhirfryn

BL9 0DZ

01617 629 502

leesashowmensguild@yahoo.com

<http://www.showmensguild.co.uk>

The Travellers School Charity (Teithwyr Newydd yn unig)

Ty Loveden House

26 Stryd y Bont

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 1QB

07786 466 107

info@travellersschool.org.uk

<http://www.travellersschool.org.uk>

Cymorth Cynllunio Cymru

Llawr Cyntaf

174 Whitchurch Road

Caerdydd

CF14 3NB

029 2062 5000

<http://www.planningaidwales.org.uk>

Sefydliadau cymorth cymunedol eraill yn y DU:

The Traveller Movement (Irish Travellers Movement in Britain cyn hynny)

The Resource Centre

356 Holloway Road

Llundain

N7 6PA

020 7607 2002

info@travellermovement.org.uk

<http://www.travellermovement.org.uk>

Friends, Families and Travellers

Community Base

113 Queens Road

Brighton

BN1 3XG

01273 234777

Fft@gypsy-traveller.org

www.gypsy-traveller.org

The National Federation of Gypsy Liaison Groups

c/o Derbyshire Gypsy Liaison Group

Unit 3

Molyneux Business Park

Whitworh Road

Darley Dale

Matlock

DE4 2HJ

01629 732744

info@nationalgypsytravellerfederation.org

<http://www.nationalgypsytravellerfederation.org>

The Gypsy Council (for Education, Culture, Welfare and Civil Rights)

8 Hall Road

Aveley

Romford

Essex

RM15 4HD

07963 565 952

info@gypsy-association.com

<http://www.gypsy-association.com>

Roma Support Group

PO Box 23610

Llundain

E7 0XB

020 7511 0800

info@romasupportgroup.org.uk

<http://www.romasupportgroup.org.uk>

Atodiad 2: Holiadur

Adran A – Eich Cartref

A1 Ble rydych chi'n byw nawr?

Safle preswyl Awdurdod Lleol ("Cyngor")	
Safle tramwy Cyngor	
Safle preifat sydd â chaniatâd cynllunio	
Safle preifat sydd heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd	
Gwersyll diawdurdod	
Tŷ confensiynol – Rhent Cymdeithasol	
Tŷ confensiynol – Rhent Preifat	
Tŷ confensiynol – Perchen-feddiannydd	

A2 Ydych chi'n fodlon ar eich llety presennol?

Ydw	
Nac ydw	
Dewis peidio â dweud	

Os nad ydych chi'n fodlon, sut y gellid ei wella:

A3 Allwch chi ddweud wrthyf pam rydych chi'n byw yma?

Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	
Dim llain awdurdodedig arall	
Methu dod o hyd i dŷ i symud iddo	
Rhesymau'n ymwneud ag oed neu iechyd	
Gwell gen i dŷ na charafán	
Arall:	

A4 Pa mor hir rydych chi wedi byw yma?

Llai nag 1 mis	1–6 mis	7–12 flynedd	1–2 flynedd	2–5 flynedd	Mwy na 5 mlynedd

A5 Os ydych chi wedi symud o fewn y flwyddyn ddiwethaf, oedd eich cartref diwethaf yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn?

OEDD **NAC OEDD**

Rhowch y manylion isod:

Math o lety	A oedd caniatâd cynllunio ar ei gyfer?	Yn ardal pa Awdurdod Lleol oedd ef?	Pam y gwnaethoch chi adael?

A6 Pa mor hir rydych chi'n credu y byddwch chi'n aros yma?

1 neu 2 ddiwrnod	3–28 diwrnod	1–3 mis	3 mis – 2 flynedd	2–5 mlynedd	Mwy na 5 mlynedd	Ddim yn bwriadu symud	Ddim yn gwybod

A7 Fyddech chi'n aros yn hirach os oedd newidiadau neu welliannau'n cael eu gwneud i'ch llety presennol?

(**Sylwer:** Mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu gwneud y gwelliannau hyn ond bydd yn help iddo ddeall problemau â'ch llety)

BYDDWN

Rheswm	Tic
Angen gwaith trwsio	
Gwneud y safle'n fwy	
Gwneud y llety'n fwy diogel	
Rhoi caniatâd cynllunio	
Angen addasiadau (noder isod)	

NA FYDDWN

Rheswm	Tic
Dim ond yn mynd drwodd	
Am gael llain awdurdodedig mewn ardal arall	
Am symud i dŷ	
Perthynas wedi methu	
Gwell gen i fyw mewn carafán	

Arall:

--

Adran B – Eich Teulu

	Sut mae'n perthyn i'r ymatebydd (e.e. Priod, mab/ merch etc)	Oed	Rhyw	Romani / Teithiwr Gwyddelig / Teithiwr Newydd / Siewmon / Roma / Arall (Disgrifiad yr ymatebydd)	Oes unrhyw resymau na allwch chi barhau i fyw yn y llety hwn? (rhowch fanylion)
Ymatebydd					
Person 2					
Person 3					
Person 4					
Person 5					
Person 6					
Person 7					
Person 8					
Person 9					
Person 10					
Person 11					
Person 12					

Os nad yw'r ymatebydd yn byw mewn carafán, ewch ymlaen i B4.

B2 Os ydych chi'n byw mewn carafannau, a oes digon o fannau cysgu i'r holl breswylwyr?

OES NAC OES

B3 Oes lle ar y llain ar gyfer carafannau ychwanegol er mwyn atal gorlenwi?

(Sylwer: mae canllawiau'n awgrymu bod angen bwlch o 6 metr rhwng carafannau a bwlch o 3 metr at y terfyn er mwyn eu cynnwys yn ddiogel ar y llain)

OES NAC OES

Os oes, faint o fannau cysgu y gellir eu hychwanegu?

B4 Oes unrhyw un yn eich teulu a fyddai'n hoffi mynd ar restr aros yr Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau neu dai?

OES NAC OES

Rhowch gyfeiriad ar gyfer anfon pecyn ymgeisio:

Nodwch a ydych chi ar restr aros yn barod ac ar ba rai.

Adran C – Eich Cynlluniau

C1 Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall?

Ydw	<i>Ewch i C2</i>	
Nac ydw	<i>Ewch i D1</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Ewch i D1</i>	

C2 I ble rydych chi'n bwriadu symud?

O fewn ardal yr Awdurdod Lleol	
I ardal Awdurdod Lleol arall yng Nghymru – nodwch ba un	
I rywle arall yn y DU	

C3 Pam rydych chi'n bwriadu symud?

Angen mwy o le	
Angen cyfleusterau gwahanol	
Cysylltiad lleol (teulu neu waith)	
Angen bod yn nes at wasanaethau – ysgolion etc (Rhowch y manylion isod)	
Cyfleoedd gwaith	
Arall (Nodwch isod)	

Gwasanaethau:	Arall:
---------------	--------

C4 Pa fath o lety rydych chi'n bwriadu symud iddo?

1. Safle		2. Tŷ confensiynol	
Cyngor / Rhent Cymdeithasol		Perchen-feddiannydd	
Safle preifat sy'n eiddo i chi		Rhent Cyngor / Cymdeithas Dai	
Safle preifat sy'n eiddo i rywun arall		Rhentu gan landlord preifat	

C5 Ydych chi'n berchen ar dir yn ardal yr Awdurdod Lleol y byddech chi'n hoffi iddo gael ei ystyried ar gyfer safle yn y dyfodol?

(**Sylwer:** Rhaid i'r cyfwelydd egluro nad oes sicrwydd y bydd y safle'n cael ei ddyrannu neu ei ddatblygu ond gall swyddogion cynllunio gysylltu â'r ymatebydd i drafod ei sefyllfa a chynnig cymorth)

Ydw	<i>Rhowch y manylion isod</i>	
Nac ydw	<i>Ewch i C6</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Ewch i C6</i>	

Os byddech chi'n hoffi i'r Awdurdod Lleol drafod y cynlluniau hyn gyda chi, rhowch eich manylion cyswllt isod:

		BYDDWN	NA FYDDWN
C6	Os ydych chi'n chwilio am lain awdurdodedig, fydddech chi'n byw ar safle wedi'i reoli gan yr Awdurdod Lleol os oeddech yn cael cynnig?		
C7	Os oedd llain awdurdodedig ar gael yn ardal Awdurdod Lleol arall, fydddech chi'n ystyried symud yno? Os byddech, pa Awdurdodau Lleol?		

Adran D – Twf y Teulu

D1 Oes unrhyw un yn ar eich aelwyd sy'n debygol o fod am symud i'w gartref ei hun yn y 5 mlynedd nesaf?

Oes	<i>Ewch i D2</i>	
Nac oes	<i>Ewch i D4</i>	
Ddim yn gwybod	<i>Ewch i D4</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Ewch i D4</i>	

D2 Fydd hwnnw yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn?

Bydd	<i>Ewch i D3</i>	
Na fydd	<i>Ewch i D4</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Ewch i D4</i>	

D3 Faint o aelwydydd newydd fydd yna a pha bryd y bydd angen y rhain?

	Math o lety (safle ALL; safle preifat; tŷ confensiynol)	Nifer y bobl	Nawr	Ymhen blwyddyn	1-2 flynedd	2-5 mlynedd
Aelwyd 1						
Aelwyd 2						
Aelwyd 3						
Aelwyd 4						

D4 Oes aelodau o'ch teulu sy'n byw y tu allan i'r ardal hon sy'n gweryslla'n rheolaidd yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn?

Oes	<i>Ewch i D5</i>	
Nac oes	<i>Ewch i E1</i>	
Ddim yn gwybod	<i>Ewch i E1</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Ewch i E1</i>	

D5 Os bydden nhw'n hoffi cael eu cyf-weld am yr angen am leiniau, rhowch eu manylion cyswllt ac ardal yr Awdurdod Lleol lle maen nhw'n byw nawr:

Adran E – Safleoedd Tramwy

E1 Ydych chi wedi gweryslla ar ochr y ffordd / mewn gwerysll diawdurdod / ar safle tramwy yng Nghymru wrth deithio yn y flwyddyn ddiwethaf?

(**Prompt:** dim ond i gael gwybod a oes angen mwy o safleoedd tramwy rydyn ni'n gofyn am y wybodaeth hon)

Ydw	<i>Ewch i E2</i>	
Nac ydw	<i>Ewch i E4</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Ewch i E4</i>	

E2 Yn ardaloedd pa Awdurdodau Lleol rydych chi wedi gweryslla?

Dewis peidio â dweud

E3 Pa mor hir fyddech chi'n aros mewn un lle fel arfer wrth deithio?

1–2 ddiwrnod	3 diwrnod – 1 wythnos	1–2 wythnos	2 wythnos – 1 mis	1–3 mis

E4 Ydych chi'n credu bod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru?

Ydw	<i>Ewch i E5</i>	
Nac ydw	<i>Diwedd yr holiadur</i>	
Dewis peidio â dweud	<i>Diwedd yr holiadur</i>	

E5 Ble mae angen y rhain? (Holwch am enw'r Awdurdod Lleol a lleoliadau penodol)

Dewis peidio â dweud

Atodiad 3 – Log Cyfweliad

Cliciwch yma i fynd i'r log cyfweliad os gwelwch yn dda.

Atodiad 4: Templed drafft ar gyfer cyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr

Gall Awdurdodau Lleol drefnu cynnwys eu Hasesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mha bynnag ffordd y maent yn dewis. Fodd bynnag, gellir sicrhau bod y broses o graffu ar y GTAA gan Weinidogion Cymru yn cael ei gwblhau'n gynt drwy ddilyn y templed isod. Dim ond awgrymiadau am benawdau a'r wybodaeth a ddisgwylir a geir yn y templed hwn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth hanfodol wedi'i chynnwys a'i bod yn hawdd cyfeirio ati yn ystod y broses craffu.

Pennod Un: Y cyd-destun polisi

- **Deddfwriaeth a Chanllawiau**
 - Deddf Tai (Cymru) 2014 – dyletswyddau
 - Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pwerau.
 - Cylchlythyrau cynllunio 30/2007 a 78/91.
 - Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- **Polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol**
 - Safleoedd penodol a ddyrannwyd.
 - Polisiau seiliedig ar feini prawf.
 - Polisiau ar eithriadau gwledig.
- **Diffinio termau allweddol**
 - Rydym yn argymhell defnyddio diffiniadau a geir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

Pennod Dau: Y cefndir a dadansoddi'r data presennol

- **Canfyddiadau o Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol**
 - Yr angen a ddynodwyd i'w ddiwallu a'r cynnydd hyd yn hyn.
- **Data poblogaeth**
 - Dadansoddi data o Gyfrifiad 2011, cofnodion Tai a Chynllunio'r Awdurdod Lleol, gwybodaeth Gwasanaethau Addysg i Deithwyr a Byrddau Iechyd, a gwybodaeth sydd gan swyddogion arbenigol neu sefydliadau gwirfoddol.
- **Y Cyfrif Carafannau**
 - Gall y data ddangos tueddiadau mewn gorlenwi ar safleoedd awdurdodedig neu newidiadau ym mhatrymau gwersylloedd diawdurdod dros amser.
- **Y ddarpariaeth bresennol o lety**
 - Safleoedd Awdurdod Lleol ñ rhai preswyl a thramwy. Nodwch a yw'r safleoedd yn rhai dros dro yn unig.
 - Safleoedd awdurdodedig mewn perchenogaeth breifat (parhaol).
 - Safleoedd mewn perchenogaeth breifat sydd â chaniatâd dros dro.
 - Datblygiadau diawdurdod.

- Gwersylloedd diawdurdod.
- Dylid cynnwys gwybodaeth am unrhyw safle ar gyfer cymuned ethnig neu ddiwylliannol benodol. Er enghraifft, os yw safle ar gyfer Siewmyn neu Deithwyr Newydd yn unig, nodwch hynny.

Pennod Tri: Methodoleg

- **Aelodaeth grwp llywio'r prosiect**

- Nodwch pwy oedd aelodau'r grwp llywio, gan gynnwys y sefydliad, ward neu gymuned y maent yn eu cynrychioli.

- **Methodoleg yr Astudiaeth**

- Pwy a gynhaliodd yr astudiaeth?
- Y dull a ddefnyddiwyd, gan gynnwys lle'r oedd yr astudiaeth wedi gwro oddi wrth y canllawiau.
- Y dyddiadau y cynhaliwyd yr astudiaeth.
- Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol eraill.
- Rhestr o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd.
- Cadarnhau cydymffurfiaeth â'r rhestr wirio ymgysylltu.
- Unrhyw newidiadau yn yr holiadur cyffredinol.

Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r Arolwg

- **Cyfweliadau ag aelwydydd**

- Nifer yr aelwydydd wedi'i rannu yn Ûl y math o lety ac ethnigrwydd.
- Cynnwys y log cyfweliadau.
- Egluro unrhyw anawsterau a gafwyd wrth geisio cysylltu ag aelwydydd.

- **Proffil demograffig y boblogaeth**

- **Addasrwydd y llety presennol**

- Ymdrin â'r canfyddiadau ar fodlonrwydd.
- Gorlenwi.
- Gwelliannau / newidiadau sydd eu hangen.

- **Dyheadau o ran llety**

- Ymdrin ag anghenion a dewisiadau'r rheini a oedd yn dymuno cael lleiniau awdurdodedig, gan gynnwys y rhesymau dros unrhyw ddyheadau a ddiystyrwyd.
- Ymdrin â'r posibilrwydd o ddatblygu safleoedd preifat.

- **Twf mewn aelwydydd**

- Nifer disgwylidig yr aelwydydd newydd o fewn 5 mlynedd.
- Nifer disgwylidig yr aelwydydd newydd o fewn cyfnod y CDLI.
- Cynnwys gwybodaeth am unrhyw ragdybiaethau ynghylch lefel y twf a ragwelir.

Pennod Pump: Aseu anghenion llety

- **Angen am leiniau preswyl sydd heb ei ddiwallu**
 - Y cyflenwad presennol o leiniau preswyl.
 - Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl.
 - Y galw presennol am leiniau preswyl.
 - Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol.
 - Twf mewn Aelwydydd yn y dyfodol.
 - Tabl o anghenion (tebyg i Dabl 3 yn y canllawiau ar gynnal GTAA).
- **Angen am leiniau tramwy sydd heb ei ddiwallu**
 - Cynnwys dadansoddiad o ddata'r Cyfrifiad Carafannau a data perthnasol eraill i bennu'r angen am safleoedd tramwy, manau aros dros dro neu'r naill na'r llall.
 - Cynnwys trafodaethau ag Awdurdodau Lleol cyfagos.

Pennod Chwech – Casgliadau ac Argymhellion

- Y camau nesaf
 - Cynllun arfaethedig i ddeall y math o safleoedd ychwanegol sydd eu hangen a'u lleoliadau. Nid oes angen cynnwys cynlluniau llawn a lleoliadau gan y bydd yn cymryd mwy o amser i ddatblygu'r rhain.
 - Amserlen arfaethedig ar gyfer diweddaru polisau'r CDLI.

Atodiad 1: Holiaduron yr Arolwg (dim ond cwestiynau sy'n wahanol 'r holiadur cyffredinol)